Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

# Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd: Trefniadau Cyfredol ac Arferion Da yng Nghymru

## Adroddiad Terfynnol

**Robat Powell**
**Robert Smith**
**Gareth Jones**
**Angharad Reakes**

**Hydref 2006**

**CYNNWYS**


**tudalen**

**Diolchiadau** Error! Bookmark not defined.

**1. Cyflwyniad** **1**

1.1 Y Cyd-destun Addysgol 1
1.2 Strwythur yr Adroddiad 9

**2. Amcanion a methodoleg** **11**

2.1 Amcanion y prosiect 11
2.2 Dulliau ymchwil 11

**3. Perfformiad disgyblion yn CA2 a CA3** **15**

3.1 Perfformiad disgyblion yng Nghymru a Lloegr 15
3.2 Rhesymau dros y Cwymp ym Mherfformiad Disgyblion o CA2 i CA3 19
Canfyddiadau Allweddol **Error! Bookmark not defined.**

**4. Ymdriniaeth ALl â throsglwyddo** **23**

4.1 Polisïau trosglwyddo CA2-CA3 23
4.2 Defnyddio Cyllid Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru 25
4.3 Ymateb Ysgolion i Fentrau ALl **Error! Bookmark not defined.**
4.4 Datblygu Cysylltiadau rhwng Disgyblion cyn Trosglwyddo 28
Canfyddiadau Allweddol **Error! Bookmark not defined.**

**5. Gwybodaeth i rieni a disgyblion** **31**

5.1 Gwybodaeth a chefnogaeth i rieni 31
5.2 Rhesymau dros ddewis ysgol 32
5.3 Gwybodaeth disgyblion am yr ysgol uwchradd 34
Canfyddiadau Allweddol **Error! Bookmark not defined.**

**6. Dilyniant rhwng CA2 a CA3** **36**

6.1 Ymwybyddiaeth Gyfredol ar draws Cyfnodau Allweddol 36
6.2 Strategaethau ar gyfer Cydgysylltu CA2/CA3 37
6.3 Rôl Cydlynwyr Trosglwyddo 39
6.4 Cysylltiadau rhwng Llywodraethwyr 41
6.5 Trosglwyddo Data ar Gyrhaeddiad Academaidd 42
6.6 Trosglwyddo Gwybodaeth Gefndir ar Ddisgyblion 44
6.7 Ymweliadau ag ysgolion cynradd 45
6.8 Ymweliadau Blwyddyn 6 ag ysgolion uwchradd 47
6.9 Prosiectau trosglwyddo 48
6.10 Sefydlu a chynghori 49
6.11 Polisïau ar bontio AAA 50
6.12 Cynnydd mewn Addysgu Cymraeg 51
6.13 Safbwynt y Disgyblion 53
Canfyddiadau Allweddol **Error! Bookmark not defined.**

**7. Casgliadau** **60**

7.1 Ystadegau perfformio 60
7.2 Ffactorau sy’n Effeithio ar Berfformiad Is yn CA3 60
7.3 Cywirdeb Asesiadau CA2 a Chwricwlwm Cenedlaethol 60
7.4 Cyfranogiad yr ALl **Error! Bookmark not defined.**
7.5 Pwysigrwydd Gweithdrefnau Trosglwyddo 61
7.6 Gwella Trefniadau Trosglwyddo 61
7.7 Strategaethau ar gyfer Gwella 61
7.8 Trefniadau AAA 62
7.9 Anghenion Bugeiliol ac Addysgol 63
7.10 Canfyddiadau Disgyblion 63
7.11 Cysylltiadau rhwng Ysgolion Cynradd ac Uwchradd 63
7.12 Ymwybyddiaeth Athrawon ar Draws Cyfnodau Allweddol 63
7.13 Cyfarfodydd HMS a Phwnc ar y Cyd 64
7.14 Addysgu Cymraeg 64
7.15 Anghenion Ymchwil yn y Dyfodol 64
7.16 Cynnydd mewn Trefniadau Trosglwyddo 65

**Atodiad: Astudiaethau achos ymarfer da** **68**

Astudiaeth achos 1 68
Astudiaeth achos 2 71
Astudiaeth achos 3 73
Astudiaeth achos 4 77

**Cyfeiriadau** Error! Bookmark not defined.

# Diolchiadau

Dymuna aelodau'r tîm ymchwil fynegi eu diolchgarwch i'r swyddogion awdurdodau lleol, staff ysgolion a disgyblion fu'n cymryd rhan yn y cyfweliadau maes. Rhoddodd y bobl hyn o'u hamser yn hael i gyfrannu tuag at y dystiolaeth a'r mewnwelediadau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt.

Hoffem hefyd fynegi ein gwerthfawrogiad i Chris Llewelyn a Seimon Williams o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu harweiniad yn ystod y prosiect.

Diolch arbennig i Linda Gimblett a Lowri Randell am eu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol, ac i Pauline Benefield a Katie Longfield o Lyfrgell SCYA am eu cymorth gyda'r llenyddiaeth gefndir. Diolch hefyd i Sandie Schagen am ddarllen proflenni'r drafft terfynol.

### Tîm y Prosiect:

Wyn Abraham
Jane Nicholas
Robat Powell
Angharad Reakes
Robert Smith

### Rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

**Trosglwyddo:** plant yn symud o CA2 i CA3 a'r trefniadau sy'n gysylltiedig â hynny.

**Pyramid ysgolion:** 'pyramid' ysgolion yw'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd fyddai'n bwydo'r ysgol honno yn arferol. Mae hyn yn aml yn seiliedig ar leoliad daearyddol er y gall hefyd gyfeirio at wahanol fathau o ysgol, er enghraifft ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.

**Clwstwr o ysgolion**: grŵp o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd, yn aml yn seiliedig ar strwythur pyramid ysgolion.

**Dalgylch**: yr ardal mae'r ysgol yn ei gwasanaethu, wedi'i phennu gan ALlau.

**Cynnydd**: mae disgyblion yn datblygu'n academaidd ac yn bersonol o flwyddyn i flwyddyn ac o un cyfnod allweddol i'r nesaf mewn ffordd sy'n adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

**Dilyniant**: mae trefniadau academaidd a bugeiliol yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau cynnydd. Mae gwybodaeth a phrofiadau blaenorol disgyblion yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio darpariaeth ar eu cyfer.

# 1. Cyflwyniad

Cydnabyddir fod trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn fater allweddol ym mholisi addysgol Cymru ac mewn mannau eraill. Mae ymchwil ddiweddar wedi archwilio gwahanol agweddau o drosglwyddo, yn cynnwys datblygu cysylltiadau cwricwlaidd a chefnogaeth fugeiliol i ddisgyblion.

Cyflwyna'r adroddiad hwn ganfyddiadau prosiect ymchwil a noddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac a gyflawnwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) i archwilio tystiolaeth o arfer da mewn trosglwyddo yng Nghymru.

Mae'r bennod hon yn disgrifio cefndir yr ymchwil ac yn amlinellu Strwythur yr Adroddiad.

## 1.1 Y Cyd-destun Addysgol

### Mater trosglwyddo

Mae pwysigrwydd trefniadau effeithiol a phriodol ar gyfer trosglwyddo disgyblion o ysgol gynradd i'r uwchradd fel dull o sicrhau dilyniant cwricwlaidd a chynnydd yn addysg y disgyblion yn awr yn cael ei gydnabod yn eang fel ffactor hanfodol mewn gwelliant ysgolion. Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd yn y maes yn adlewyrchu ei bwysigrwydd yn y drafodaeth ar bolisi addysg yn y Deyrnas Gyfunol.

Edrychodd Schagen a Kerr (SCYA, 1999) ar fater dilyniant a chynnydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cenedlaethol a'i bwyslais ar ddilyniant cwricwlaidd. Edrychodd eu hymchwil ar sut yr oedd trosglwyddo yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei effeithio gan faterion megis cofrestru agored a diffyg traddodiad o gydweithredu rhwng ysgolion mewn prosiectau traws-gyfnod. Gwelsant fod rhai agweddau o'r broses drosglwyddo wedi gwella cryn lawer yn ymarferol yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn enwedig o ran trefniadau bugeiliol, ac yn y modd yr oedd ysgolion yn eu marchnata eu hunain pan fyddai cystadleuaeth am ddisgyblion. Er hynny, nodwyd problemau lle'r oedd ysgolion uwchradd yn derbyn disgyblion o nifer fawr o ysgolion cynradd, yn rhannol oherwydd anawsterau ymarferol wrth weithio gyda chymaint o ysgolion bwydo.

Canfu Schagen a Kerr (SCYA, 1999) fod y cysylltiadau cwricwlaidd rhwng ysgolion yn wannach na'r trefniadau bugeiliol. Roedd amrywiaethau sylweddol o ran i ba raddau yr oedd prosiectau traws-gyfnod wedi cael eu datblygu mewn gwahanol byramidiau ysgolion. Roedd addysgu traws-gyfnod yn brin oherwydd diffyg adnoddau. Ar yr un pryd, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol yn y math a'r maint o wybodaeth oedd yn cael ei hanfon o'r ysgolion cynradd i'r ysgolion uwchradd ac yn y modd y câi'r wybodaeth honno ei defnyddio.

Cyfeiria Mann (EMIE, 1997) at y pryder fod disgyblion yn colli momentwm wrth iddynt ddod i mewn i'r ysgol uwchradd a'r modd yr oedd dyluniad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ceisio mynd i'r afael â dilyniant. Mae ei ymchwil hefyd yn cydnabod, er gwaetha'r pwyslais yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, fod y mater yn dal heb ei ddatrys. Daw Galton *et al.* (2000) i gasgliadau tebyg, gan ddadlau mai prin oedd effeithiau cadarnhaol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar drefniadau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr, er gwaethaf ei bwyslais ar ddilyniant. Meddent: '*Although the intention of those who created the National Curriculum was to ensure continuity between the various key stages, few teachers feel that the links are satisfactory*'.

Cyfeiria Mann (1997) at y corff o dystiolaeth sy'n haeru fod gan ALlau rôl allweddol wrth ddatblygu strategaethau i drosglwyddo disgyblion ond mae'n nodi bod i ba raddau y gallant wneud hynny'n amrywio. Ceisiodd ei ymchwil amlygu enghreifftiau o arfer da oedd yn cynnwys:

- prosiectau cwricwlaidd ar y cyd ar draws y ddau gyfnod
- prosiectau cwricwlaidd ar y cyd yn cynnwys mwy nag un maes cwricwlwm
- polisïau ac arferion cytûn o ran addysgu a dysgu
- cydlynu deunyddiau ac arddulliau addysgu.

Er hynny, canfu Schagen a Kerr (SCYA, 1999) fod swyddogaethau'r ALlau'n amrywio'n fawr ac er bod rhai eisiau chwarae rhan fwy canolog roeddent yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Yn ôl rhai penaethiaid, golygai hyn mai ychydig y gellid ei ddisgwyl gan ALlau er

bod rhai penaethiaid hefyd yn credu y dylai ALlau gymryd rôl fwy rhyngweithiol.

Mewn archwiliad o strategaethau penodol i wella trosglwyddo i ysgolion uwchradd, mynegodd Galton *et al.* (2000) amheuon ynghylch rhai o'r arferion sydd wedi cael eu cyflwyno. Er enghraifft, cyfeiriant at fabwysiadu dulliau addysgu ysgolion cynradd yn ystod blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd, a chlystyru rhai pynciau gyda'i gilydd mewn addysgu 'sylfaen' gan ddyfynnu tystiolaeth arolwg ORACLE (1975-1980) ac astudiaethau wedi hynny sy'n cwestiynu effeithiolrwydd rhai o'r strategaethau hyn.

Ar ben hyn, nodant fod pwysau o fewn ysgolion yn aml yn golygu nad yw gweithdrefnau'n cael eu dilyn (Galton et al. 2000). Er enghraifft, awgrymant nad yw gwybodaeth sy'n cael ei hanfon ymlaen o ysgolion cynradd yn cael ei defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion uwchradd a bod blaenoriaethau eraill yn dod gyntaf: '*Faced with the increased costs of visiting more schools, it is not surprising that efforts have been concentrated on ensuring that the move to "big school" causes as little stress as possible and that children with "special problems" are catered for*.'

Canfu Galton et al. (2000) hefyd mai'r sefyllfa mewn llawer o ysgolion uwchradd yw mai *'the head of year's role is mainly a pastoral one and s/he may be concerned that any efforts to promote greater curriculum continuity on his or her part might be regarded as interference by heads of subject departments*'. Dônt i'r canlyniad *'There is little incentive, therefore, for the subject teachers to draw up teaching programmes that take account of the information passed on by the feeder schools*'.

Ymhellach, mae ymchwil arall yn cwestiynu a yw'r ffocws ar bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn cyfeirio sylw oddi ar broblemau eraill sydd yr un mor ddifrifol. Noda Doddington *et al.* (1999), y cwymp ym mherfformiad disgyblion ym mlynyddoedd canol cyfnodau cynradd ac uwchradd addysg fel ei gilydd, tra bod Demetriou *et al.* (2000) yn cyfeirio at yr angen i archwilio trosglwyddo o fewn ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y blynyddoedd cychwyn a gadael. Rhoddodd eu gwaith cryn sylw i effaith dad-symbylu ym Mlwyddyn 8 gan dynnu ar dystiolaeth fod ffactorau megis dylanwad cyfoedion a chychwyn glasoed yn

cael mwy o effaith ar berfformiad disgyblion nag unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ysgolion.

### Polisïau trosglwyddo yng Nghymru

Mae gwneuthurwyr polisi yng Nghymru wedi sylweddoli pwysigrwydd trosglwyddo. Yn ystod yr ymchwil arweiniodd at yr adroddiad *'Cau'r Bwlch'* ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dywedodd nifer o ALlau y dylid rhoi sylw taer i fater dilyniant rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd addysg er mwyn nodi arfer da. Teimlid y byddai hyn yn gyfraniad pwysig tuag at:

- Sicrhau cyflawniad academaidd
- Sicrhau dilyniant gofal bugeiliol
- Sicrhau dilyniant o ran iaith, polisi ac arfer.

Cafodd pwysigrwydd trosglwyddo ei gydnabod yn Neddf Addysg 2002 (Estyn, 2004b) ac fe'i gwelwyd fel nodwedd allweddol yn ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi safonau yn CA3 mewn ffyrdd sy'n adeiladu ar gyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd. Nododd Estyn (2004b) un arolwg a gynhaliwyd gan ALl yng Nghymru a ddywedodd mai '*Cyfnod Allweddol 3 yw'r adeg pan fydd y duedd tuag at anfodlonrwydd naill ai'n dechreu, yn cyflymu, neu'n cael ei atal'* (dyfynnwyd yn Estyn, 2004b). Yn 2004-05 ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ag amryw o randdeiliaid am gynigion a fyddai'n '*ei gwneud yn ofynnol i ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo sefydlu cynllun ar gyfer hwyluso trosglwyddiad disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd blwyddyn* 6' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).

Ar yr un pryd, cynhyrchodd Estyn a rhanddeiliaid eraill gyngor ac arweiniad i gefnogi ysgolion gyda'r gwaith hwn. Ym mis Ionawr 2004 cyhoeddodd Estyn, ynghyd ag ACCAC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill (yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a BBC Cymru) *Symud Ymlaen… Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* (Estyn 2004a). Ceisiodd hwn adeiladu ar gydweithrediad rhwng ACCAC a BBC Cymru oedd wedi datblygu fideos a llyfrynnau i gefnogi sgiliau sylfaenol yn CA3.

### Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater

Cydnabu Estyn (2004a) yr angen i wella perfformiad yn CA3 drwy amryw o fesurau yn cynnwys:

- gwella dilyniant mewn dysgu ac addysgu
- creu mwy o gyfleoedd i athrawon arsylwi gwaith cydweithwyr sy'n addysgu cyfnodau eraill
- annog ysgolion uwchradd i adeiladu ar arfer da wrth ddatblygu dulliau ysgol-cyfan tuag at lythrennedd a rhifedd sy'n amlwg mewn ysgolion cynradd, yn cynnwys defnyddio rhaglenni dal i fyny (megis y rhai sy'n cael eu cefnogi gan Raglen Grantiau Ymyrraeth Strategol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol)
- cynllunio cynlluniau gwaith mewn ysgolion uwchradd i gymryd i ystyriaeth y dysgu a'r addysgu sydd wedi digwydd mewn ysgolion cynradd
- datblygu unedau pontio i'w cychwyn yn CA2 a'u cwblhau yn CA3
- sicrhau trosglwyddo data'n effeithiol o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd a gwneud y defnydd gorau ohono
- sicrhau dulliau priodol i gefnogi anghenion personol a dysgu disgyblion ag AAA wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mewn adolygiad cychwynnol ar drefniadau trosglwyddo, nododd Estyn *'Mae cysylltiadau da, a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd, gan lawer o deuluoedd neu 'glystyrau' o ysgolion cynradd a'u hysgol(ion) uwchradd cysylltiedig. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau bod disgyblion wedi'u paratoi'n dda yn gymdeithasol i drosglwyddo a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol newyudd'* (Estyn 2004b).

Roedd rhai ysgolion hefyd wedi cynnal peilot ar newidiadau i'r modd y mae cwricwlwm CA3 yn cael ei drefnu (megis lleihau nifer yr athrawon sy'n addysgu ym Mlwyddyn 7 a lleihau faint o weithiau mae'r disgyblion yn newid ystafelloedd), a gwella rôl tiwtoriaid dosbarth, er enghraifft drwy gyfrwng rhaglenni mentora gyda disgyblion ym Mlwyddyn 6.

Cafodd y defnydd o ddata i hysbysu addysgu yn yr ysgol uwchradd ei argymell gan Estyn (2004b) a nododd '*O gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl, mae ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn rhannu mwy o wybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion unigol a'r ffactorau cyfrannol, fel presenoldeb ac anawsterau ymddygiad, neu faterion teuluol a chymdeithasol. Lle mae gan ysgolion cynradd ac uwchradd drefniadau effeithiol i wneud hyn, mae athrawon uwchradd yn dechrau addysgu ar y lefel iawn ar gyfer disgyblion ar ddechrau Blwyddyn 7. Nid yw athrawon yn gwastraffu amser addysgu gwerthfawr yn chwilio am wybodaeth sydd eisoes ar gael am anghenion eu disgyblion'.* Fodd bynnag, canfu hefyd bod faint o ddata sy'n

cael ei drosglwyddo i'r ysgol uwchradd a'r defnydd a wneir ohono'n amrywiol.

Nododd Estyn (2004b) fod cynllunio'n elfen hanfodol ar gyfer trosglwyddo llwyddiannus a chanfu arfer da lle '*mae'r polisïau ar y cyd gorau'n cynnwys datganiad clir o'r trefniadau'* ar gyfer trosglwyddo.

Nododd Estyn (2004a) '*Gwneir y cynnydd mwyaf* [o ran gwella trosglwyddo] *pan fydd yna strategaeth wedi'i chynllunio'n dda i wella pontio yn y cynllun datblygu ysgol. Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi datblygu cynlluniau ar y cyd i'r perwyl hwn'*. Er eu bod yn cydnabod fod trefnu trosglwyddo'n haws mewn ardaloedd '*lle mae disgyblion cynradd yn mynd i'r un ysgol uwchradd, a lle caiff ysgolion uwchradd ddisgyblion o nifer cymharol fach o ysgolion cynradd'*, hyd yn oed wedyn nodwyd fod manteision o hyd wrth weithio'n agosach lle'r oedd patrwm y trosglwyddo'n '*gymhleth*'. Gwelsant dystiolaeth o arfer da lle:

- roedd pob aelod staff yn rhan o'r broses
- roedd ymrwymiad cadarn gan uwch reolwyr a'r broses yn cael ei harwain gan aelod staff dynodedig gyda statws uwch mewn ysgol

Tynnodd Estyn (2004a) sylw hefyd at ddatblygiad rhaglenni traws-gyfnod megis *Cyflymu Gwybyddol trwy Addysg Wyddoniaeth (CASE) a Cyflymu Gwybyddol mewn Addysg Fathemateg (CAME)*, ac amlygodd enghreifftiau lle'r oedd TGCh yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu mewn ysgolion uwchradd mewn ffordd oedd yn adeiladu ar gynefindra disgyblion ohono yn yr ysgol gynradd.

Pwysleisiodd Estyn (2004b) ac ACCAC (2004) yr angen i adeiladu ar arfer da wrth ddatblygu sgiliau meddwl disgyblion a'r defnydd o asesiad ar gyfer dysgu. Amlygwyd yr angen i wneud hyn mewn ffyrdd oedd yn hysbysu'r cynllunio dysgu ac addysgu ac oedd yn cymryd i ystyriaeth yr angen am barhad a dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd.

Cafodd cyngor ac arweiniad ar sut i ddatblygu unedau pontio effeithiol ei gyhoeddi gan ACCAC (2004) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn. Nododd hwn y meini prawf allweddol y dylai unedau o'r fath eu cynnwys, yn eu plith:

- amcanion addysgu clir gafodd eu cytuno gan yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd
- cysylltu addysgu mewn ysgolion cynradd â'r addysgu mewn ysgolion uwchradd ond mabwysiadu '*dull newydd*' yn yr ysgolion uwchradd
- darparu cyfleoedd i blant ddatblygu'r sgiliau y mae angen i ddisgyblion eu datblygu yn yr ysgol uwchradd
- mynd i'r afael â'r angen am wahaniaethiad a chefnogaeth
- sicrhau eu bod yn '*ddiddorol ac yn gyffrous i'r disgyblion'*
- datblygu unedau oedd â gwerth cynhenid ynddynt eu hunain.

Barnwyd bod yr angen yn hanfodol am bartneriaethau deialog rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wrth ddatblygu'r unedau hyn. Yn ôl ACCAC (2004) '*Mae datblygu unedau pontio yn gofyn trafodaeth reolaidd rhwng athrawon sy'n cytuno ynghylch amcanion penodol yr uned ac yn ei haddasu i ddiwallu anghenion pawb sy'n ymwneud â hi. Mae angen gwneud penderfyniadau ar y cyd. Os bydd ysgol uwchradd, er enghraifft, yn gwneud dim mwy na darpau uned o waith a disgwyl i ysgolion cynradd y bartneriaeth weithio drwyddi gyda'u disgyblion gall fod yna rai buddion – ond nid yw'n debygol o ddiwallu gwir anghenion y dysgwyr nac o hybu dealltwriaeth ychwanegol gan athrawon o wybodaeth ac arfer eu partneriaid'*.

Amlygodd ACCAC (2004) yr angen i gynllunio unedau pontio mewn ffyrdd oedd yn adlewyrchu anghenion y disgyblion eu hunain. Meddent '*Wrth gynllunio uned bontio, mae angen i athrawon ofalu bod y gofynion mor hyblyg a phenagored â phosibl fel y gall disgyblion ymdrin â hi yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w galluoedd a'u harddulliau dysgu'.* Ar ben hyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd gwerthuso effeithiol a thrwyadl.

Cydnabu Estyn (2004b) rôl ALlau. Amlygwyd tystiolaeth lle'r oedd ALlau wedi arwain, er enghraifft:

- datblygu trefniadau trosglwyddo oedd yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Addysg Strategol ALlau
- ffurfioli trefnu ysgolion yn gonsortia yn seiliedig ar 'deuluoedd' o ysgolion a threfnu timau cefnogi'r ALl o gwmpas strwythurau o'r fath
- clustnodi cyfrifoldeb penodol dros drosglwyddo i swyddog gyda statws uwch yn yr ALl
- rhannu a lledaenu arfer da, a chynnwys amrywiaeth o randdeiliaid yn y broses, yn cynnwys llywodraethwyr.

Cafodd effaith y trefniadau hyn eu harchwilio gan Estyn (2004c) a nododd fod cynnydd yn cael ei wneud gan ysgolion wrth fynd i'r afael â'r angen i wella trefniadau trosglwyddo. Serch hynny, daethant i'r casgliad bod angen mynd ymhellach, drwy ddatblygu cynlluniau mwy cynhwysfawr, a thrwy wella'r prosesau gwerthuso. Daethant hefyd i'r casgliad fod y swm o wybodaeth oedd yn cael ei rhannu'n dal i amrywio o ysgol i ysgol. Ar ben hynny, tynnwyd sylw ganddynt at yr angen i adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng staff er mwyn hwyluso gwell ymwybyddiaeth o beth oedd yn cael ei addysgu gan athrawon mewn gwahanol gyfnodau. Canfuwyd hefyd fod trefniadau ar eu cryfaf o fewn 'teuluoedd' ysgolion.

Canfu Estyn (2004c) hefyd fod rhai ysgolion wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu rhaglenni strwythuredig i hybu sgiliau meddwl ond bod enghreifftiau o hyd lle nad '*yw rhai ysgolion uwchradd yn addysgu medrau meddwl ac nid ydynt yn adeiladu ar y gwaith da a wnaeth disgyblion yn yr ysgol gynradd'* (Estyn, 2004c). Mewn nifer o achosion lle cafodd hyn ei wneud, roedd ALlau wedi chwarae rôl allweddol. Daethant i'r casgliad fod gwell dealltwriaeth yn amlwg rhwng y staff dan sylw mewn ysgolion oedd wedi darparu amser i athrawon asesu gwaith gyda chydweithwyr oedd yn dysgu cyfnodau eraill.

### Datblygu trosglwyddo

Fel y nodwyd uchod, ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod 2004-05 ar gynigion oedd yn galw ar ysgolion i ddatblygu cynlluniau trosglwyddo (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005). Cynigiwyd y dylai cynlluniau trosglwyddo o'r fath fod yn eu lle erbyn Medi 2007 ac y byddai disgyblion yn dechrau trosglwyddo i ysgolion uwchradd ar sail cynlluniau o'r fath ym Medi 2008. Canfu'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gyffredinol dros:

- gynnwys pob categori o ysgol a gynhelir yn y gofyniad
- sicrhau mai dim ond mewn cydweithrediad ag un ysgol uwchradd y flwyddyn y byddai gofyn i bob ysgol gynradd ddatblygu cynllun
- sicrhau fod llywodraethwyr a rhieni'n rhan o'r broses, er heb fod yn rôl weithredol o anghenraid
- cynnwys ALlau yn y broses
- datblygu gofynion craidd ar gyfer pob cynllun, yn cynnwys cyd-gynllunio cwricwlaidd
- mabwysiadu cylch cynllunio dros dair blynedd.

Mynegwyd peth pryder ynghylch effaith y gofyniad ar ysgolion bach, yn enwedig yn sgil ofnau y byddai rhai ysgolion yn gorfod newid y cynlluniau bob blwyddyn. Roedd teimlad hefyd y gallai heriau fodoli lle'r oedd gan ysgolion berthynas â mwy nag un ysgol uwchradd, mater fydd yn cael ei drafod mewn canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 1.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae Pennod 2 yr adroddiad hwn yn nodi'r amcanion a'r fethodoleg oedd yn sylfaen i'r prosiect hwn. Mae Pennod 3 yn cyflwyno tystiolaeth ystadegol am berfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) a Chyfnod Allweddol 3 (CA3) yng Nghymru ac yn cymharu'r patrwm yng Nghymru â'r patrwm yn Lloegr. Mae hefyd yn edrych ar y rhesymau pam fod ymarferwyr yng Nghymru'n credu fod perfformiad disgyblion yn dirywio mewn nifer o bynciau yn CA3.

Ym Mhennod 4, trafodir polisïau ALlau ar drosglwyddo, yn cynnwys defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac ymateb ysgolion i'r mentrau hynny. Mae Pennod 5 yn edrych ar yr amrywiaeth o wybodaeth sy'n cael ei rhoi i rieni ac i ddisgyblion am ysgolion uwchradd a'r rhesymau pam mae'r rheini'n dewis ysgolion penodol. Edrycha Pennod 6 ar y cysylltiadau sydd wedi cael eu datblygu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, y strategaethau i wella'r cysylltiad rhyngddynt, a mentrau penodol megis prosiectau trosglwyddo a chysylltiadau rhwng llywodraethwyr ysgolion. Mae hefyd yn disgrifio'r math o wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ysgolion uwchradd gan ysgolion cynradd, y modd y caiff ei defnyddio a'r prosesau sydd wedi cael eu cyflwyno i sicrhau fod disgyblion yn dod yn gyfarwydd â'u hysgolion newydd. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer disgyblion ag AAA ac i sicrhau dilyniant mewn addysgu Cymraeg.

Mae Pennod 7 yn cyflwyno'r casgliadau y daeth y tîm ymchwil iddynt yn sgil y data a gasglwyd. Mae'r Atodiad i'r adroddiad yn cynnwys pedwar astudiaeth achos, dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd, a disgrifir a dadansoddir eu trefniadau trosglwyddo'n fanwl.

# 2. Amcanion a methodoleg

## 2.1 Amcanion y prosiect

Amcanion yr ymchwil oedd:

- adolygu trefniadau presennol yng Nghymru ar gyfer trosglwyddo disgyblion o CA2 i CA3
- nodi arfer da mewn trosglwyddo ym meysydd penodol a) cynllunio a pholisi, b) cynnydd academaidd, c) gofal bugeiliol, ch) dilyniant ieithyddol
- cyflwyno argymhellion ar gyfer datblygu ymhellach arfer da mewn trefniadau trosglwyddo o CA2 i CA3.

## 2.2 Dulliau ymchwil

Defnyddiodd y prosiect gyfuniad o ddulliau ymchwil, yn cynnwys coladu data ystadegol, adolygiad desg o ddogfennau a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda swyddogion ALl, penaethiaid, athrawon a disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

Cafodd yr ymchwil ei threfnu mewn tri llinyn.

### Llinyn cyntaf

Roedd y llinyn cyntaf yn cynnwys adolygu dogfennaeth ar faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yn CA2 a CA3 ym mhob ALl yng Nghymru ac ym mhob rhanbarth llywodraethol yn Lloegr. Casglwyd yr wybodaeth drwy Lyfrgell SCYA yn ei bencadlys yn Slough.

### Ail linyn

Roedd yr ail linyn yn cynnwys cynllunio holiaduron lled-strwythuredig a chynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â'r canlynol:

- uwch swyddogion ALl gyda chyfrifoldeb dros faterion trosglwyddo CA2 i CA3
- ymgynghorwyr ALl
- penaethiaid ysgolion uwchradd
- cydlynwyr trosglwyddo ysgolion uwchradd

- penaethiaid adrannau ysgolion uwchradd
- penaethiaid blwyddyn ysgolion uwchradd
- penaethiaid ysgolion cynradd
- athrawon Blwyddyn 6
- disgyblion Blwyddyn 6
- disgyblion Blwyddyn 7.

### Sampl ysgolion

Cafodd sampl gynrychioliadol o naw ALl, wyth ysgol uwchradd a deuddeg ysgol gynradd ei dethol. Roedd bwriad i ymweld â phyramidiau o ysgolion fel rhan o'r ymchwil hon (h.y. ysgol uwchradd a rhai o'r ysgolion cynradd oedd yn ei bwydo). Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth o resymau, dim ond un pyramid ysgolion oedd yn gallu cymryd rhan.

### Tabl 2.1: Sampl ysgolion

| Ysgolion Uwchradd | Nifer ar y gofrestr | Ysgolion Cynradd | Nifer ar y gofrestr |
|---|---|---|---|
| Ysgol 1 | 1220 | Ysgol 1 | 55 |
| Ysgol 2 | 585 | Ysgol 2 | 99 |
| Ysgol 3 | 1200 | Ysgol 3 | 116 |
| Ysgol 4 | 440 | Ysgol 4 | 161 |
| Ysgol 5 | 1160 | Ysgol 5 | 238 |
| Ysgol 6 | 785 | Ysgol 6 | 383 |
| Ysgol 7 | 896 | Ysgol 7 | 420 |
| Ysgol 8 | 1365 | Ysgol 8 | 395 |
| | | Ysgol 9 | 325 |
| | | Ysgol 10 | 46 |
| | | Ysgol 11 | 200 |
| | | Ysgol 12 | 94 |

Roedd yr ysgolion uwchradd yn amrywio yn eu maint o ysgol gyda 440 o ddisgyblion ar y gofrestr i ysgol gyda dros 1,300 o ddisgyblion. Roedd tair o'r ysgolion yn dysgu'r rhan fwyaf o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys un ysgol cyfrwng Gymraeg benodedig yn Ne Cymru. Roedd y sampl yn cynnwys ysgolion oedd yn cynrychioli gwahanol gyd-destunau economaidd gymdeithasol a lleoliadau daearyddol.

Roedd yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â hwy yn amrywio o ran maint o 55 disgybl i 420. Fel gyda'r ysgolion uwchradd, dewiswyd y sampl i adlewyrchu gwahanol fathau o ysgolion yng Nghymru. Roedd yn cynnwys saith ysgol lle'r oedd y pennaeth yn gwneud peth addysgu er bod eu baich dysgu'n amrywio o 20 y cant i 80 y cant.

Roedd gan bob un o'r ysgolion uwchradd glwstwr cynradd dynodedig. Fodd bynnag, roedd rhai ohonynt yn tynnu disgyblion o'r tu allan i'w dalgylch. Roedd y dalgylch lleiaf yn cynnwys tair ysgol gynradd a'r mwyaf yn cynnwys 13. Roedd canran y disgyblion o'r dalgylch dynodedig oedd yn mynychu pob ysgol uwchradd yn amrywio o 85 y cant i 98 y cant.

Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â hwy'n bwydo un ysgol uwchradd. Fodd bynnag, dywedodd pump o'r ysgolion cynradd fod eu disgyblion wedi trosglwyddo i o leiaf dair ysgol uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

## Trydydd llinyn

Roedd y trydydd llinyn yn cynnwys coladu a dadansoddi'r holl ddata a gasglwyd o ffynonellau ystadegol, y llenyddiaeth a'r gwaith maes a chynhyrchu adroddiad y prosiect.

# 3. Perfformiad disgyblion yn CA2 a CA3

## 3.1 Perfformiad disgyblion yng Nghymru a Lloegr

Dengys y tabl isod y canran o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr a gyflawnodd y lefel darged mewn asesiadau cenedlaethol statudol sef Lefel 4 yn CA2 a Lefel 5 yn CA3 yn 2002.

**Tabl 3.1: Perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn asesiadau statudol, 2002**

| ARDAL | Saesneg | | Mathemateg | | Gwyddoniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CA2 | CA3 | CA2 | CA3 | CA2 | CA3 |
| Gogledd Ddwyrain | 72 | 65 | 73 | 64 | 86 | 63 |
| Gogledd Orllewin | 75 | 67 | 75 | 66 | 87 | 65 |
| Swydd Efrog a Humber | 72 | 64 | 72 | 64 | 85 | 64 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 74 | 65 | 73 | 68 | 86 | 68 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 72 | 65 | 71 | 65 | 85 | 65 |
| Dwyrain Lloegr | 76 | 67 | 73 | 70 | 87 | 70 |
| Llundain Fwyaf | 73 | 63 | 72 | 63 | 85 | 61 |
| De Ddwyrain | 76 | 69 | 73 | 70 | 87 | 70 |
| De Orllewin | 75 | 68 | 73 | 70 | 87 | 70 |
| **Lloegr** | **74** | **66** | **73** | **67** | **86** | **66** |
| **Cymru** | **79** | **61** | **73** | **62** | **86** | **67** |

*Ffynhonnell, DfES, 2003*

Roedd canran uwch o ddisgyblion CA2 wedi cyflawni'r lefel darged yn Saesneg yng Nghymru (79 y cant) nag yn yr holl ysgolion a gynhelir yn Lloegr (74 y cant) ac roedd y ffigur i Gymru'n uwch na ffigur unrhyw ranbarth yn Lloegr. Fodd bynnag, roedd canran y disgyblion CA3 yng Nghymru a gyrhaeddodd y lefel darged (61 y cant) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion a gynhelir yn Lloegr (66 y cant) ac yn is nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. Llwyddodd cyfanswm o 79 y cant o ddisgyblion i gyflawni'r lefel darged yn Saesneg yn CA2, ond roedd 18 y cant yn llai o ddisgyblion wedi

llwyddo i wneud hynny yn CA3 (61 y cant). Roedd y gwahaniaeth hwn yn uwch nag mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr.

Mewn mathemateg, roedd y canran a gyflawnodd y lefel darged yng Nghymru (73 y cant) yr un fath â'r cyfartaledd yn Lloegr ac yn uwch na'r ffigurau mewn dau o ranbarthau Lloegr – Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain Fwyaf. Fodd bynnag, roedd pump y cant yn llai o ddisgyblion CA3 yng Nghymru wedi cyflawni'r lefel darged (62 y cant) nag yn Lloegr (67 y cant). Roedd y ffigur hwn yn is na ffigur unrhyw ranbarth yn Lloegr. Roedd y gwahaniaeth rhwng CA2 a CA3 (11 y cant) yn uwch nag mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr.

Mewn gwyddoniaeth, roedd canran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd y lefel darged yng Nghymru yr un fath â Lloegr yn CA2 (86 y cant) ac ychydig bach yn uwch yn CA3 (67 y cant). Roedd y gwahaniaeth rhwng canran y disgyblion a gyflawnodd y radd darged yn CA3 o gymharu â CA2 yn 19 y cant, ychydig bach yn llai na ffigur Lloegr.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos fod perfformiad disgyblion Cymru yn CA2 yn cyfateb neu'n well na pherfformiad disgyblion Lloegr. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd fod cyflawniad disgyblion yn gostwng yn sylweddol yng Nghymru yn CA3, yn enwedig yn Saesneg a mathemateg.

Mae'r tablau isod yn dangos canrannau'r disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) yn CA2 a CA3 yn ALlau Cymru yn 2002. Pennir y CSI gan y canran sy'n cyflawni'r radd darged mewn gwyddoniaeth, mathemateg a naill ai Saesneg neu gyfuniad o Gymraeg a Saesneg.

**Tabl 3.2: Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl ALl, 2002: CA2 a CA3**

| | CA2: % y disgyblion | CA3: % y disgyblion | Gwahaniaeth CA2-3 |
|---|---|---|---|
| Sir Fôn | 70 | 49 | -21 |
| Gwynedd | 71 | 53 | -18 |
| Conwy | 69 | 51 | -18 |
| Dinbych | 65 | 51 | -14 |
| Fflint | 69 | 52 | -17 |
| Wrecsam | 68 | 47 | -21 |
| Powys | 69 | 60 | -9 |
| Ceredigion | 72 | 56 | -16 |
| Penfro | 73 | 54 | -19 |
| Caerfyrddin | 69 | 55 | -14 |
| Abertawe | 71 | 49 | -22 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 64 | 51 | -13 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 69 | 50 | -19 |
| Bro Morgannwg | 76 | 60 | -16 |
| Rhondda Cynon Taf | 67 | 47 | -20 |
| Merthyr Tudful | 66 | 40 | -26 |
| Caerffili | 63 | 45 | -18 |
| Blaenau Gwent | 60 | 41 | -19 |
| Torfaen | 64 | 46 | -18 |
| Mynwy | 72 | 56 | -16 |
| Casnewydd | 68 | 46 | -22 |
| Caerdydd | 66 | 50 | -16 |
| **CYMRU** | **68** | **50** | **-18** |

### Tabl 3.3: Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl ALl, 2002: bechgyn

| | **CA2: % Bechgyn** | **CA3: % Bechgyn** | **Gwahaniaeth CA2-3** |
|---|---|---|---|
| Sir Fôn | 66 | 44 | -22 |
| Gwynedd | 67 | 49 | -18 |
| Conwy | 64 | 47 | -17 |
| Dinbych | 61 | 47 | -14 |
| Fflint | 66 | 49 | -17 |
| Wrecsam | 66 | 43 | -23 |
| Powys | 67 | 53 | -14 |
| Ceredigion | 69 | 52 | -17 |
| Penfro | 70 | 52 | -18 |
| Caerfyrddin | 66 | 49 | -17 |
| Abertawe | 68 | 44 | -24 |
| Castell-nedd Port Talbot | 62 | 48 | -14 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 70 | 46 | -24 |
| Bro Morgannwg | 75 | 59 | -16 |
| Rhondda Cynon Taf | 66 | 44 | -22 |
| Merthyr Tudful | 63 | 36 | -27 |
| Caerffili | 59 | 42 | -17 |
| Blaenau Gwent | 58 | 33 | -25 |
| Torfaen | 61 | 38 | -23 |
| Mynwy | 69 | 51 | -18 |
| Casnewydd | 64 | 42 | -22 |
| Caerdydd | 64 | 47 | -17 |
| **CYMRU** | **65** | **46** | **-19** |

**Tabl 3.4: Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl ALl, 2002: merched**

| | CA2: % Merched | CA3: % Merched | Gwahaniaeth CA2-3 |
|---|---|---|---|
| Sir Fôn | 74 | 54 | -20 |
| Gwynedd | 75 | 56 | -19 |
| Conwy | 74 | 54 | -20 |
| Dinbych | 69 | 55 | -14 |
| Fflint | 71 | 56 | -15 |
| Wrecsam | 70 | 51 | -19 |
| Powys | 71 | 68 | -3 |
| Ceredigion | 75 | 60 | -15 |
| Penfro | 75 | 57 | -18 |
| Caerfyrddin | 72 | 62 | -20 |
| Abertawe | 74 | 53 | -21 |
| Castell-nedd Port Talbot | 66 | 53 | -13 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 68 | 53 | -15 |
| Bro Morgannwg | 77 | 62 | -15 |
| Rhondda Cynon Taf | 67 | 50 | -17 |
| Merthyr Tudful | 70 | 44 | -26 |
| Caerffili | 66 | 48 | -18 |
| Blaenau Gwent | 62 | 48 | -14 |
| Torfaen | 67 | 53 | -14 |
| Mynwy | 76 | 62 | -14 |
| Casnewydd | 71 | 50 | -21 |
| Caerdydd | 68 | 52 | -16 |
| **CYMRU** | **71** | **54** | **-17** |

Yn 2002 roedd canran y disgyblion yng Nghymru gyflawnodd y CSI yn 68 y cant yn CA2 ond dim ond yn 50 y cant yn CA3. Roedd canran y merched gyflawnodd y CSI yn uwch na’r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol: 71 y cant a 65 y cant yn CA2, a 54 y cant a 46 y cant yn CA3.

Roedd y canran gyflawnodd y CSI yn uwch yn CA2 ym mhob ALl yng Nghymru, er bod y gwahaniaeth yn amrywio’n fawr ar draws yr ALlau, yn dynodi fod y cwymp mewn perfformiad yn CA3 yn fwy amlwg mewn rhai awdurdodau. Cofnodwyd y cwymp lleiaf mewn perfformiad ym Mhowys (9 y cant), Castell-nedd Port Talbot (13 y cant), Sir Gaerfyrddin (14 y cant) a Sir Ddinbych (14 y cant)

Gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf mewn perfformiad pwnc rhwng CA2 a CA3 mewn Saesneg a gwyddoniaeth (18 y cant). Roedd y cwymp yn is mewn mathemateg (11 y cant) gyda’r gwahaniaeth ond yn 4 y cant mewn Cymraeg.

Mae'r ffigurau'n dangos amrywiadau ym mherfformiad disgyblion ar draws ALlau er nad oes cydberthynas amlwg bob amser rhwng amrywiadau mewn perfformiad a nodweddion economaidd gymdeithasol ALlau unigol.

## 3.2 Rhesymau dros y Cwymp ym Mherfformiad Disgyblion o CA2 i CA3

Gofynnwyd i swyddogion ALl, penaethiaid ac athrawon pam, yn eu barn hwy, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel darged yn CA3 yn is nag yn CA2.

### Y persbectif cynradd

Teimlai'r penaethiaid cynradd (12) fod peth o'r gwaith oedd yn cael ei osod ym Mlwyddyn 7 yn ddi-her. Teimlent fod peth ohono'n aml yn haws na'r gwaith a osodwyd ym Mlwyddyn 6 a'i fod yn golygu peth ailadrodd gwaith oedd eisoes wedi'i wneud. Awgrymiadau eraill am y rheswm dros y cwymp mewn perfformiad oedd:

- disgyblion yn fwy canolbwyntiedig ym Mlwyddyn 6 oherwydd eu bod yn ymwybodol y byddent yn sefyll profion CA2 ac roeddent yn cael eu dysgu gyda nod penodol mewn golwg (9)
- y modd yr oedd rhai plant yn cael eu dadleoli ac yn cymryd peth amser i setlo i lawr yn eu hamgylchedd newydd (9)
- roedd y system fugeiliol yn yr ysgol uwchradd yn llai effeithiol gan nad oedd y plant gyda'u hathro dosbarth y rhan fwyaf o'r dydd ac felly nid oedd eu cefnogaeth fugeiliol ar gael bob amser (8)
- yr angen i ddisgyblion addasu i'r gwahanol arferion dysgu ac addysgu yn yr ysgol uwchradd, yn enwedig cael eu dysgu gan wahanol athrawon a gorfod bod yn fwy hunan ddibynnol (3)
- roedd cymaint o waith cartref yn golygu fod rhai disgyblion yn cael eu dadrithio, oedd yn arwain at ymddieithrio ehangach (3)

Cafwyd y sylw cynrychiadol hwn gan un pennaeth cynradd

> *Yn yr ysgol gynradd mae'r athro'n gyfrifol am y plentyn am y diwrnod cyfan ac felly mae'n gwybod beth yw gallu'r plentyn ym mhob maes pwnc. Fydd yr athro ddim yn derbyn darn o hanes wedi'i ysgrifennu mewn llawysgrifen anniben gan blentyn, ond pan fydd y plentyn yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, un o'r ffactorau yw nad yw'r staff yn ei adnabod a bydd rhai plant yn rhoi gwaith i mewn nad yw o'r safon gorau a fyddai'r athro ddim yn gwybod hynny o anghenraid. Rwy'n credu bod y rhyddid maen nhw'n ei gael yn yr ysgol uwchradd [yn ffactor]. Gall weithio o'u plaid neu yn eu herbyn. Mae rhai plant yn ddigon aeddfed i allu delio â'r dewisiadau a'r rhyddid maen nhw'n ei*

> *gael. Ond mae rhai plant nad ydyn nhw'n ddigon aeddfed. Dwi'n credu fod angen system fugeiliol gryfach arnyn nhw.*

Awgrymodd rhai penaethiaid cynradd y gellid datblygu dull newydd o addysgu'r cwricwlwm yn CA3. Byddai hyn yn golygu bod un athro'n cymryd cyfrifoldeb am grŵp o bynciau gan ddysgu'r rhan fwyaf o'r cwricwlwm ym Mlwyddyn 7, gyda chefnogaeth arbenigol pe byddai angen. Byddai'r oriau cyswllt gydag un athro'n cael eu lleihau ym Mlwyddyn 8 ac ym Mlwyddyn 9 pan fyddai'r rhan fwyaf o'r pynciau'n cael eu haddysgu gan athrawon gwahanol.

Roedd nifer fawr o benaethiaid cynradd hefyd yn credu fod 'atchweliad' yn ystod y bwlch hir rhwng profion a thasgau CA2 a chychwyn yn yr ysgol uwchradd: *'Mae yna effaith ôl-TASau. Ychydig iawn o waith ysgrifennu ac ati mae disgyblion yn ei wneud yn ystod ail hanner tymor yr haf ym Mlwyddyn 6 … a gall hyn effeithio ar berfformiad disgyblion ym Mlwyddyn 7.'* Roedd eraill yn teimlo fod tueddiad gan rai ysgolion uwchradd i beidio ag 'ymestyn' disgyblion o'r cychwyn, gyda'r canlyniad eu bod yn colli momentwm yn fuan iawn. Un sylw nodweddiadol oedd *'Dydw i ddim yn credu fod athrawon Blwyddyn 7 yn gwerthfawrogi'n llawn faint y mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y bobl ifanc hyn.'* Esboniad arall oedd bod tuedd wedi bod i ddefnyddio staff llai profiadol i ddysgu ym Mlwyddyn 7 ac i ffocysu ar '*ddefnyddio strategaethau dysgu ac addysgu dychmygus gyda phobl hŷn ac i ddysgu allan o werslyfrau ym Mlwyddyn 7'.* Fodd bynnag, dywedodd penaethiaid yr ysgolion uwchradd eu bod wedi ceisio sicrhau fod staff profiadol yn dysgu ym Mlwyddyn 7 a bod yr arddulliau dysgu'n gyffrous ac yn ddychmygus.

### Y persbectif uwchradd

Cynigiodd y penaethiaid uwchradd resymau eraill gan roi, yn aml, wahanol raddau o bwysigrwydd iddynt.

Ymysg y materion y soniwyd amdanynt oedd:

- y ffordd yr oedd disgyblion yn cael eu 'haddysgu at y profion' yn CA2 (8)
- colli momentwm rhwng diwedd y profion CA2 a dechrau'r ysgol uwchradd (8)
- 'pwysau cyfoedion' yn CA3 allai rwystro perfformiad da, yn enwedig ymysg bechgyn, drwy ddylanwad disgyblion heb ddiddordeb ar eraill; 'dydy gweithio'n galed ddim yn cŵl' (8)

- y ffaith nad oedd disgyblion yn cael eu dysgu gan yr un athro (4)
- dadrithiad disgyblion ar ôl y brwdfrydedd cychwynnol yn yr ysgol newydd (4)
- yr angen i gyfuno gwahanol ddiwylliannau'r ysgolion cynradd amrywiol yr oedd disgyblion wedi arfer â nhw (4).

Haerodd llawer o ymatebwyr uwchradd fod y 'cwymp' yn CA3 yn ganlyniad 'anghywirdebau' yn yr asesiadau TASau yn CA2 fel bod yr asesiadau CA2 yn cynrychioli lefelau cyflawniad afrealistig: er enghraifft, roedd rhai disgyblion gafodd lefel 4 ar ddiwedd CA2 yn dal i gael eu hasesu ar lefel 4 ar ddiwedd CA3 er eu bod wedi symud ymlaen yn ystod y tair blynedd ac wedi cael lefel 4 llawer gwell nag a gawsant ym Mlwyddyn 6. Teimlid mai ehangder y cyflawniad o fewn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol oedd weithiau'n gyfrifol am hyn. Dywedwyd fod y diffyg cynnydd canfyddedig yn arwain at gylch cythreulig lle mae disgyblion yn colli momentwm ac yn ymddieithrio. Un farn oedd na fyddai 'cwymp' yn CA3 yn digwydd pe byddai asesiadau CA2 yn fwy cywir.

Credai llawer o ymarferwyr ysgolion uwchradd bod angen mynd i'r afael â'r cwricwlwm yn CA3 gan haeru y dylai bod mwy o hyblygrwydd nag oedd ar gael ar hyn o bryd.

## Canfyddiadau Allweddol

Dangosodd canlyniadau profion a thasgau statudol 2002 fod perfformiad yng Nghymru yn CA2 yn cymharu'n dda gyda Lloegr ond ei fod yn is ar y cyfan yn CA3.

Roedd canran y disgyblion gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) yn CA2 a CA3 yn amrywio'n amlwg ar draws ALlau Cymru. Serch hynny, roedd y canrannau'n uwch yn CA2 na CA3 ym mhob ALl.

Y canfyddiad yn yr ysgolion cynradd oedd bod perfformiad disgyblion yn gostwng yn CA3 oherwydd:

- bod disgyblion yn fwy canolbwyntiedig ym Mlwyddyn 6 oherwydd y pwysigrwydd sy'n gysylltiedig â phrofion CA2
- nid oedd y gwaith a osodwyd ym Mlynyddoedd 7 ac 8 bob amser yn heriol ac weithiau byddai'n ailadrodd gwaith yr oedd plant eisoes wedi'i wneud yn ystod CA2

- roedd y cyswllt agos rhwng athro adisgybl yn yr ysgol gynradd ar goll yn y system fugeiliol mewn ysgolion uwchradd
- roedd angen i ddisgyblion addasu i wahanol arddulliau dysgu ac amrywiaeth o athrawon gwahanol yn CA3
- roedd rhai disgyblion yn ymddieithrio'n gyffredinol â'r ysgol yn ystod CA3.

Teimlai llawer o ymarferwyr ysgolion uwchradd:

- y gellid gor-ddweud cyflawniad disgyblion yn CA2 drwy 'ddysgu at y TASau'
- nad oedd cynnydd pob disgybl yn yr ysgol uwchradd yn cael ei gofnodi'n gywir gan y profion a'r tasgau CA3 oherwydd bod lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mor eang
- bod diwylliant ieuenctid a datblygiad personol yn effeithio ar agweddau disgyblion tuag at astudio
- bod angen amser ar lawer o ddisgyblion i ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol yn CA3.

# 4. Ymdriniaeth ALlau â throsglwyddo

Gofynnwyd i'r ALlau a oeddent wedi datblygu polisïau ffurfiol i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r uwchradd, pa fentrau yr oeddent wedi eu datblygu yn y maes hwn, sut roedd ysgolion wedi ymateb, a pha gysylltiadau allgyrsiol yr oeddent yn eu cefnogi.

## 4.1 Polisïau trosglwyddo CA2-CA3

Ychydig iawn o'r ALlau yr ymwelwyd â hwy oedd wedi datblygu polisi ysgrifenedig ffurfiol i gefnogi trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu mentrau oedd yn cynnwys cyfrannu tuag at raglenni HMS (yn cynnwys diwrnod ychwanegol wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio trosglwyddo), datblygu dulliau safonol parthed trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion, a gweithio gydag ysgolion i ddatblygu rhaglenni pontio a sefydlu.

Dywedodd un ALl nad oedd datblygu trefniadau trosglwyddo effeithiol yn beth newydd o bell ffordd a haerodd y dylai'r Cwricwlwm Cenedlaethol fod wedi rhoi ysgogiad newydd i drefniadau trosglwyddo. Serch hynny, teimlid fod peth o'r ysgogiad wedi cael ei golli wrth i ysgolion gael eu llethu wrth gyflwyno cynnwys y cwricwlwm gan arwain at lai o sylw'n cael ei roi i faterion fel trosglwyddo.

Roedd i ba raddau y mae swyddogion ALl yn cymryd rôl ryngweithiol mewn perthynas â throsglwyddo'n amrywio ac yn dibynnu llawer iawn ar ddiwylliant yr ALl o ran ymyrraeth mewn ysgolion. Er enghraifft, dywedwyd fod ysgolion mewn rhai ardaloedd yn eiddigeddus iawn o'u hunigolyddiaeth a'u hannibyniaeth ac mai rôl *'hwylusydd ac nid ysgogydd'* oedd gan yr ALl.

Roedd un ALl sy'n gwasanaethu ardal ddiwydiannol yn Ne Cymru wedi cymryd rôl ragweithiol gan amlygu trosglwyddo fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer gweithredu oherwydd y tangyflawni yn CA3 o gymharu â CA2. Roedd wedi datblygu amrywiaeth o fentrau *'amlochrog'* gyda ffocws ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7 ac 8. Roedd hyn yn cynnwys rôl allweddol i'r ALl yn gweithio gydag ysgolion drwy'r Grwpiau Gwella Ysgolion oedd yn archwilio trosglwyddo ochr yn ochr â materion eraill oedd yn berthnasol i wella

ysgolion. Roedd yr ALl wedi nodi *'blaenoriaethau penodol ar gyfer gweithredu ... wedi eu hanelu at wella'r cysylltiadau cwricwlaidd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Blaenoriaeth allweddol yw hybu dilyniant a pharhad pellach o Gyfnod Allweddol 2 a thuag at Gyfnod Allweddol 4, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddulliau o wneud y defnydd gorau o flwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2 a blwyddyn gyntaf ac ail Cyfnod Allweddol 3'.* Er mwyn cwrdd â'r amcanion hyn, mae'r ALl wedi gosod trosglwyddo yn ffocws pwysig i'w fentrau generig gwella ysgolion. Rhoddir esiamplau o'r mathau o raglenni sydd wedi cael eu datblygu mewn ysgolion yn yr awdurdod hwnnw yn Astudiaeth Achos 6.

Roedd un ALl yn datblygu polisi i gyflawni dau beth. Yn gyntaf, i safoni dogfennaeth a datblygu prosiectau trosglwyddo ac yn ail i gydgordio arddulliau dysgu ym Mlynyddoedd 6 a 7. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy ddod ag athrawon cynradd ac uwchradd at ei gilydd a gweithio gyda nhw i ddatblygu ymagweddau cyffredin.

Roedd ALl sy'n gwasanaethu ardal wledig wedi datblygu dull manwl tuag at drosglwyddo oedd yn adeiladu ar ei syniad o 'deuluoedd o ysgolion', gyda theulu'n cael ei ddiffinio fel un ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Dywedodd y swyddog ALl gafodd ei gyfweld fod yr ardal yn rhannu'n naturiol yn deuluoedd o ysgolion oherwydd ei daearyddiaeth. Diffiniai dogfennaeth a ddarparwyd gan yr ALl deulu o ysgolion fel: *'grŵp o ysgolion, fel arfer yn yr un ardal, yn gweithio gyda'i gilydd a gyda'r Cyngor Sir i sicrhau trefniadau cwricwlaidd a threfniadol effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc …Maen nhw'n cynnwys, ar y lefel lleol, cymuned addysg effeithiol sy'n anelu at ddarparu proses ddiwnïad o ddysgu a chyflawni drwy gydweithredu a rhannu adnoddau'.*

Mae dogfennaeth a ddarparwyd gan yr ALl yn diffinio amcanion ei bolisi fel a ganlyn:

- *sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu fel rhan o wella ysgolion a chodi lefel cyflawniad plant*
- *hybu parch y naill at y llall, partneriaeth a datblygiad proffesiynol o fewn a rhwng ysgolion ac athrawon ar draws y gymuned addysg leol*
- *sicrhau fod rhaglenni addysgol yn cynnwys trefniadau cwricwlaidd a threfniadol ar gyfer trosglwyddo*
- *lleihau tangyflawni a dadrithiad sy'n ganlyniad i broblemau trosglwyddo*

- *sicrhau defnyddio adnoddau a staff cefnogi'n effeithiol ar draws y teulu o ysgolion*
- *annog arfer gorau wrth drosglwyddo a defnyddio data rhwng ysgolion*
- *adeiladu ar gryfderau presennol ysgolion drwy berchnogaeth leol, ymroddiad a datblygu ymhellach raglen integredig o wella ysgolion*
- *rhannu arfer gorau rhwng pob ysgol gyda ffocws penodol ar drosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol ond hefyd gyda ffocws cyffredinol ar gefnogaeth y naill i'r llall*
- *cydnabod cyfrifoldeb cyfrannol dros y gymuned addysg a galluogi cyfranogiad a chyfraniad y tu hwnt i ffiniau traddodiadol*
- *cyfrannu at newid mewn gwasanaeth a datblygu ffocws ar ddysgu ac anghenion cwsmeriaid.*

Mae'r ALl dan sylw wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu nifer o brosiectau trosglwyddo, yn cynnwys pasport gwyddoniaeth, ac mae wedi hwyluso HMS yn seiliedig ar deuluoedd o ysgolion.

## 4.2 Defnyddio Cyllid Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Roedd y rhan fwyaf o'r ALlau wedi defnyddio cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu HMS ychwanegol yn ffocysu ar drosglwyddo. Mewn un HMS, roedd yr hyfforddiant wedi rhoi cyfle i athrawon cynradd ac uwchradd ystyried eu trefniadau eu hunain yng ngoleuni cyflwyniadau gan eraill gydag arbenigedd yn y maes, yn cynnwys staff ALl ac Estyn ac ymchwilwyr. Cafodd staff gymorth hefyd i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynlluniau gweithredu i symud y broses ymlaen yn eu hysgolion eu hunain.

Roedd ALl arall wedi dirprwyo ei ddyraniad i grwpiau pyramid penodol oedd yn caniatáu iddynt yrru'r agenda ar y blaenoriaethau a nodwyd gan yr ALl. Gwahoddodd ALlau eraill byramidiau o ysgolion i wneud cais am gyllid i gefnogi gweithgareddau HMS gyda ffocws ar drosglwyddo. Defnyddiodd yr ALlau hynny'r ffurflenni cais neu'r wybodaeth werthuso i fonitro'r modd y cafodd yr arian ei ddefnyddio a deilliannau'r cyfarfodydd rhwng athrawon.

Mewn nifer o achosion roedd ymgynghorwyr ALl wedi darparu cyngor gwerthfawr am drosglwyddo, wedi'i gynhyrchu ganddynt hwy eu hunain a gyda defnydd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill.

Treuliodd un ymgynghorydd ddiwrnod gyda phennaeth uwchradd yn trafod materion trosglwyddo sy'n codi yn y pynciau craidd.

Roedd yr ALlau wedi ceisio sicrhau fod ysgolion yn mynd i'r afael â materion bugeiliol a chwricwlaidd. Er enghraifft, mewn llawer o ALlau, y flaenoriaeth oedd gwella dilyniant yn strategaethau llythrennedd a rhifedd ysgolion. Gofynnwyd i grwpiau pyramid ystyried pa '*strategaethau a dulliau yn CA2 sy'n llwyddiannus allai gael eu defnyddio yn CA3 yn y maes arbennig hwnnw. Maent hefyd yn edrych ar gynllunio llwyddiannus parthed y dilyniant rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn y meysydd hyn. Mae hyn yn effeithio ar gynllunio ac ar godi safonau cyflawniad ac ansawdd'.* Mewn ALl arall, roedd ysgolion cynradd wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y sector uwchradd i archwilio meysydd gwan a ganfuwyd drwy asesiadau'r profion CA2. Roedd yr ysgolion uwchradd wedyn wedi mynd i'r afael â'r rhain gan ganolbwyntio ar y meysydd gwan hynny yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 7.

Cyfeiriodd nifer o ALlau at y ffordd yr oeddent yn cefnogi mentrau penodol. Roedd un wedi penodi aelod staff i weithio ar lythrennedd. Roedd deilydd y swydd yn addysgu ym mhob ysgol o fewn pyramid o ysgolion, yn cynnwys yr ysgol uwchradd. Roedd ALl arall wedi penodi athro i addysgu gwyddoniaeth yn ysgolion cynradd ac yn ysgol uwchradd un pyramid o ysgolion. Roedd ALlau eraill wedi datblygu grwpiau astudio athrawon mewn meysydd cwricwlwm allweddol megis llythrennedd a rhifedd lle byddai athrawon CA2 a CA3 yn archwilio'r materion hynny gyda'i gilydd.

## 4.3 Ymateb Ysgolion i Fentrau ALl

Gofynnwyd i ALlau sut yr oedd ysgolion wedi ymateb i unrhyw fentrau a gyflwynwyd i wella trosglwyddo. Dywedwyd fod tua hanner yr ysgolion yn *'gadarnhaol iawn'* tra bod *'llawer o ewyllys da'* ynghylch beth roedd yr ALl yn ceisio'i gyflawni. Mewn ardaloedd eraill dywedodd yr ALlau fod y broses wedi bod yn fwy heriol a bod rhai ysgolion wedi arddangos mwy o barodrwydd i gydweithredu nag eraill. Er enghraifft, nododd un bod ysgolion cynradd yn barotach i gydweithredu na'r ysgolion uwchradd. Pwysleisiodd yr ALl yr angen i ysgolion gael ymdeimlad o berchnogi'r broses: teimlai'r mwyafrif llethol bod angen i daro'r cydbwysedd iawn rhwng gorfodaeth ac anogaeth yn hyn o beth ac mewn agweddau eraill o'u perthynas gydag ysgolion.

Roedd y gwahaniaeth yn y graddau yr oedd ALlau yn gallu neu ddim yn gallu bod yn rhagweithiol mewn perthynas â throsglwyddo'n cael ei adlewyrchu ym marn penaethiaid. Er enghraifft, roedd tri o'r penaethiaid uwchradd yn credu y dylai ALlau fod â rôl finimol mewn perthynas â throsglwyddo. Credent mai'r dasg bwysicaf i'r ALlau oedd gosod y nifer derbyn safonol ar gyfer ysgol a delio gydag apeliadau gan rieni nad oeddent wedi llwyddo i gael lle yn eu dewis ysgol. Barn arall oedd mai darparu gwybodaeth i'r ysgol ddylai swyddogaeth yr ALl fod, yn enwedig mewn perthynas ag asesiadau TASau. Dywedodd pennaeth uwchradd arall na fyddai am i benderfyniadau allweddol mewn perthynas â throsglwyddo gael eu cymryd yn ganolog gan yr ALl a phwysleisiodd yr angen am ddisgresiwn lleol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd parchu ymreolaeth ysgolion hefyd gan rai penaethiaid cynradd. Dywedodd un ohonynt y dylai gwella trefniadau trosglwyddo gael ei *'yrru o'r gwaelod i fyny'* a bod angen osgoi ymateb byrbwyll oedd yn arwain at ddatblygu cynlluniau oedd yn gosod baich biwrocrataidd ychwanegol ar ysgolion.

Roedd penaethiaid eraill yn croesawu cyfraniad eu ALlau ac yn credu y dylent wneud mwy i gynorthwyo ysgolion, yn enwedig delio ag agweddau oedd yn cymryd llawer o amser i ysgolion. Un sylw oedd: *'Rwy'n credu y dylen nhw fod yn hwyluso trafodaethau am feysydd allweddol yn enwedig o ran y craidd. Gallen nhw fod yn dod â grwpiau o bobl at ei gilydd.'* Roedd teimlad y gallai ALlau ddarparu trosolwg gwerthfawr nad oedd ar gael i staff oedd yn fwy cyfarwydd â'u dalgylchoedd eu hunain. Er enghraifft, dyma ddywedodd un pennaeth sy'n gweithio mewn ALl mawr yn Ne Cymru:

> *Rwy'n credu y dylen nhw chwarae rhan … fel arall rydych chi'n cael y symudiad disgyblion at ysgolion sy'n cael eu canfod fel rhai gwell, gan adael ysgolion eraill â niferoedd yn gostwng ac efallai â dalgylchoedd anoddach a mwy heriol. Gall rhai ysgolion gael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae niferoedd yn gostwng mor gyflym nes bod rhaid iddynt leihau nifer y staff a gall hyn fod yn achos i ysgolion fynd i fesurau arbennig.*

Teimlai rhai penaethiaid fod gan ALlau rôl bwysig i helpu ysgolion oedd yn ddiffygiol o ran y gallu i wneud peth o'r gwaith eu hunain. Yn ôl un pennaeth ysgol lle'r oedd llai na 50 o ddisgyblion:

> *Rydw i'n credu ei bod yn anodd iawn [archwilio arferion trosglwyddo effeithiol] yn enwedig fel pennaeth sy'n addysgu fy hun, ac i'r penaethiaid ysgol uwchradd … mae hynny'n rhywbeth y gallai'r ALl ei gyfrannu, gallai benodi ymgynghorydd ar gyfer cyswllt*

> *cynradd/uwchradd a throsglwyddo … gallai'r ymgynghorydd gynghori wedyn. Yn hytrach na bod pob un ohonom ni'n ceisio gwneud ein penderfyniadau ein hunain a gwneud cynlluniau, gallen ni dderbyn arweiniad da.*

Cytunai pennaeth ysgol fechan wledig arall gan ddweud y dylai'r ALl wneud mwy i gefnogi cyfnewid gwybodaeth ochr yn ochr â data gan nad oedd gan ysgolion unigol y gallu i fynd i'r afael â'r mater.

## 4.4 Datblygu Cysylltiadau rhwng Disgyblion cyn Trosglwyddo

Dywedodd nifer o ALlau fod disgyblion wedi cael cyfleoedd i gwrdd yn anffurfiol cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd drwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol. Ymysg y digwyddiadau lle cafwyd cyswllt roedd:

- digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon
- corau, cerddorfeydd a gwyliau cerdd
- Urdd Gobaith Cymru
- ymweliadau â chanolfannau preswyl
- clybiau TG sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol uwchradd
- prosiect a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru oedd wedi'i leoli mewn canolfan ieuenctid ar gampws yr ysgol uwchradd y byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynd iddi.

## Canfyddiadau Allweddol

Ychydig o ALlau oedd wedi datblygu polisïau ysgrifenedig ffurfiol ar drosglwyddo, ond roedd y rhan fwyaf yn ceisio chwarae rôl ragweithiol i ddatblygu trefniadau gydag ysgolion, gan ddibynnu ar amgylchiadau a diwylliant ALlau unigol.

Roedd grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi gweithgareddau HMS ychwanegol wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer llawer o brosiectau llwyddiannus, fel arfer yn cynnwys pyramidiau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd. Gwelwyd bod y prosiectau hyn yn berthnasol i faterion bugeiliol a chwricwlaidd fel ei gilydd.

Roedd rhai gwahaniaethau ym marn penaethiaid ar gyfranogiad yr ALl. Teimlai rhai y dylid fod wedi gadael mentrau trosglwyddo i byramidiau unigol o ysgolion. Credai eraill y dylai ALlau chwarae rôl fwy rhagweithiol, gan fod diffyg mewn rhai ysgolion yn y gallu i yrru'r prosiectau hynny eu hunain.

Dim ond lleiafrif o ALlau oedd wedi cyflwyno trefniadau ffurfiol i alluogi disgyblion Blwyddyn 6 i gwrdd yn gymdeithasol cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Serch hynny, dywedodd llawer ohonynt fod disgyblion yn cwrdd drwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol.

# 5. Gwybodaeth i rieni a disgyblion

Edrychodd yr ymchwil ar ba wybodaeth oedd yn cael ei darparu ar gyfer rhieni plant ysgol gynradd am y gwahanol ysgolion uwchradd, y trefniadau ar gyfer gwneud disgyblion yn gyfarwydd â'r ysgol newydd, a'r rhesymau dros ddewis y rhieni o ysgol uwchradd.

## 5.1 Gwybodaeth a chefnogaeth i rieni

Nid oedd unrhyw un o'r ALlau'n darparu llyfrynnau ar bob ysgol i rieni. Roedd ychydig ohonynt yn darparu gwybodaeth am y broses drosglwyddo, ond nid am ysgolion unigol. Dywedodd llawer mai prif ffynhonnell gwybodaeth i rieni oedd yr ysgolion unigol, a'r llyfrynnau a'r prosbectysau oedd yn cael eu darparu yno. Ymysg enghreifftiau nodweddiadol o'r rhain oedd:

- cyflwyniad cyffredinol i'r ysgol, ei staff ac i'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- trefniadau cofrestru, yn cynnwys ble i fynd ar ddechrau'r diwrnod cyntaf
- gwybodaeth am nifer y gwersi bob dydd
- manylion yr offer y byddai ei angen ar ddisgyblion
- trefniadau amser cinio
- beth fyddai ei angen o ran dillad ysgol a ble y gellid prynu'r dillad.

Roedd pob un o'r ysgolion uwchradd yn trefnu nosweithiau rhieni i gyflwyno'r ysgol i rieni plant Blwyddyn 6, er bod y mynychder a'r amseru'n amrywio. Yn y mwyafrif o achosion gallai rhieni hefyd ofyn am gyfweliadau unigol. Roedd llawer o ysgolion uwchradd wedi cyflwyno system apwyntiadau lle gallai darpar rieni ymweld â'r ysgol cyn gwneud penderfyniad ynghylch lle y byddai eu plentyn yn mynd. Er enghraifft, roedd un ysgol hefyd yn trefnu cyfweliadau personol rhwng rhieni/gwarcheidwaid disgyblion Blwyddyn 6 a thiwtoriaid Blwyddyn 7 i drafod materion oedd yn achos pryder i rieni a hefyd i ddarparu gwybodaeth am yr ysgol, ei strwythurau a'i weithdrefnau cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch pa ysgol y byddai'r plentyn yn mynd iddi. Roedd hi'n bosibl felly i rieni/ gwarcheidwaid drefnu cwrdd â chynrychiolwyr yr ysgol hon ar ddau achlysur. Ychydig o ran oedd gan yr ysgolion cynradd yn y broses hon, oedd yn tueddu i gael ei harwain a'i threfnu gan yr ysgolion uwchradd.

Cyfeiriodd dwy o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy at sut yr oeddent yn cynnwys rhieni yn y broses drosglwyddo drwy drefnu cyfleoedd iddynt ymweld â'r ysgol. Teimlai un ysgol uwchradd bod gwahodd rhieni i'r ysgol yn gynhyrchiol iawn, ond pwysleisiodd bod angen cynnal y cysylltiadau drwy gydol cyfnod y disgyblion yn CA3.

> *Rwy'n credu fod y cytundeb cartref-ysgol yn werthfawr iawn, gan ei fod yn cynnwys y rhieni a'r tiwtoriaid dosbarth. Rwy'n credu weithiau bod rhieni'n dod yma ac yn edrych yn bryderus iawn, nhw yw'r math o bobl sydd efallai wedi cael amser gwael eu hunain neu efallai wedi cael profiadau drwg gyda'r ysgolion cynradd, neu efallai eu bod yn teimlo'n anesmwyth yn cerdded i mewn i ysgol. Rwy'n teimlo ei fod yn helpu lleihau'r rhwystr hwnnw ... Ein gobaith yw y bydd y rhieni, am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r tiwtor dosbarth, yn teimlo'n hapusach am gysylltu â ni, a byddwn yn annog y tiwtoriaid dosbarth i ffonio'r cartref ar ôl tua mis neu chwe wythnos os nad ynghynt, i siarad â'r rhieni, dim ond i gael sgwrs gyffredinol am sut mae pethau'n mynd.*

Mewn un ysgol wledig, dywedwyd fod llawer o rieni oedd â'u plentyn hynaf yn mynd i'r ysgol uwchradd wedi dod i'r noson agored. Fodd bynnag, roedd ALl wedi cael bod *'rhieni'n ei chael hi'n ddefnyddiol iawn i ymweld ag ysgolion, ond nid yw hi bob amser yn ymarferol, er enghraifft os yw rhieni'n gweithio'.* Dywedodd ALl sy'n gwasanaethu ardal ddiwydiannol yn Ne Cymru fod cysylltiadau cryf yn bodoli rhwng ysgolion a rhieni a bod yr ALl yn ceisio cyfranogi cymaint â phosibl yn y gweithgareddau hynny. Roedd llawer iawn o gyngor yn cael ei roi'n anffurfiol yn y cyd-destunau hynny.

Nid oedd gan unrhyw un o'r ALlau systemau i fonitro bodlonrwydd rhieni gyda'r broses drosglwyddo er i bob un ohonynt ddweud mai prin oedd y cwynion ffurfiol a gafwyd am y trefniadau. Dywedodd ychydig o awdurdodau trefol fod yr ALl yn derbyn nifer o apeliadau yn erbyn gwrthod lleoliadau trwy ddewis.

## 5.2 Rhesymau dros ddewis ysgol

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd, dywedwyd fod mwyafrif helaeth y rhieni'n dewis yr ysgol uwchradd benodedig ar gyfer y clwstwr ysgolion cynradd hwnnw. Pan fyddai rhieni'n dewis ysgol uwchradd arall, roedd nifer o resymau'n dylanwadu ar eu penderfyniad, a'r pwysicaf o'r rheiny oedd:

- ymlyniad crefyddol
- enw da ysgol benodol am ragoriaeth academaidd
- hwylustod i bobl sy'n gweithio y tu allan i'r ardal lle maen nhw'n byw
- cyfrwng ieithyddol yr ysgol uwchradd
- symud tŷ ac oedi newid ysgol nes i'r plentyn orffen CA2.

Yn un rhan o Dde Cymru, dywedwyd fod mwy o ddisgyblion wedi trosglwyddo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch yn y gorffennol oherwydd *'enw da canfyddedig'* rhai ysgolion uwchradd lleol. Dywedwyd fod hyn yn llai amlwg dros y blynyddoedd diwethaf gan fod yr ysgolion â'r enw da yn llawn. Serch hynny, nodwyd rhai ffactorau penodol i ardaloedd unigol. Mewn ysgolion cynradd eraill nid oedd enw da'r ysgolion cynradd yn ffactor yn y dewis. Nododd un pennaeth *'Does gan ein rhieni ni ddim clem beth yw canlyniadau'r ysgolion uwchradd lleol. Hyd yn oed tasen nhw'n gwybod, fyddai hynny ddim yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonyn nhw.'*

Gallai disgyblion mewn ysgolion cynradd sydd wedi eu lleoli'n agos at y ffin rhwng dau ALl fynd i ysgol uwchradd yn y naill ALl neu'r llall. Mewn un achos fel hyn, roedd gan ddisgyblion y dewis o fynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg benodedig neu ysgol cyfrwng Saesneg oedd yn cynnig Cymraeg fel Mamiaith, ond heb gynnig pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd traddodiad a daearyddiaeth, roedd nifer o ddisgyblion yr ysgol hefyd wedi mynychu trydedd ysgol uwchradd mewn ALl gyfagos.

Roedd y cyfrwng ieithyddol yn y sector uwchradd yn ffactor mewn rhai ardaloedd. Mewn un ysgol gynradd roedd yr ysgol uwchradd oedd yn cael ei dewis gan y rhan fwyaf o'i disgyblion yn addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, roedd rhai rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol mewn tref gyfagos oedd yn addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Roedd ysgol arall wedi'i lleoli'n agos at y ffin rhwng dau ddalgylch. Roedd y disgyblion yn trosglwyddo i dair ysgol uwchradd – ysgol cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig ac ysgol cyfrwng Cymraeg 'draddodiadol'. Oherwydd natur dalgylch yr ysgol gynradd, roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynd i un o'r ddwy ysgol oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd fod y dewis rhwng y tair ysgol yn dibynnu'n fawr ar ble'r oedd y

rhieni'n gweithio, pa ysgol uwchradd roedd y rhieni wedi'i mynychu a dewis ffrindiau.

## 5.3 Gwybodaeth disgyblion am yr ysgol uwchradd

Dywedodd pob disgybl Blwyddyn 6 gafodd gyfweliad eu bod wedi cwrdd â staff o'r ysgol uwchradd y byddent yn mynd iddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, Pennaeth Blwyddyn 7 oedd yr aelod staff dan sylw. Roedd rhai ohonynt hefyd wedi cwrdd â rhai Penaethiaid Adrannau o'r ysgol uwchradd. Roedd rhai grwpiau wedi cael profiad o brosiectau trosglwyddo lle'r oedd athro o'r ysgol uwchradd yn dod i addysgu gwers neu gyfres o wersi yn yr ysgol gynradd. Teimlai'r rhan fwyaf o ddisgyblion fod hyn yn fuddiol ac roedd yn fodd i ddod i adnabod o leiaf un aelod o staff yr ysgol uwchradd.

Dywedodd tua hanner y disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 gafodd eu cyfweld eu bod hefyd wedi derbyn gwybodaeth am yr ysgol uwchradd o ffynonellau answyddogol megis ffrindiau hŷn, brodyr a chwiorydd neu berthnasau eraill. Yn wir, i lawer o ddisgyblion roedd hon yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am bersonoliaethau gwahanol athrawon. Yn ôl un disgybl *'mae'n ffordd o ddysgu pwy mae'n rhaid i chi fod yn ofalus ohonynt'*. Serch hynny, y ffynonellau answyddogol hyn hefyd oedd tarddle llawer o'r wybodaeth gamarweiniol oedd wedi'i phlannu mewn rhai meddyliau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r disgyblion Blwyddyn 6 eu bod wedi bod yn eu darpar ysgol uwchradd ar ymweliad undydd. Profiad nodweddiadol oedd mynd drwy'r broses gofrestru, cwrdd â thiwtoriaid dosbarth a chael profiad o wersi, yn enwedig gwyddoniaeth, technoleg, addysg gorfforol a TGCh. Roedd rhai grwpiau wedi rhannu'r profiadau hyn â disgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion eraill. Dywedodd nifer o ddisgyblion Blwyddyn 7 y bydden nhw wedi mwynhau'r cyfle i siarad â phlant o ysgolion cynradd eraill yn ystod yr ymweliadau rhagarweiniol hyn. Roedd dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy'n trefnu system lle'r oedd disgyblion uwchradd yn anfon llythyrau at blant Blwyddyn 6 yn eu hysgolion blaenorol a dywedodd y disgyblion Blwyddyn 6 eu bod wedi cael hyn yn ddefnyddiol. Byddai rhai disgyblion Blwyddyn 7 wedi elwa mwy o'r ymweliadau hynny pe byddai athrawon oedd yn eu haddysgu ym Mlwyddyn 7 wedi eu cyflwyno. Cyfeiriwyd hefyd at ddymunoldeb gwybod pa ddosbarthiadau neu setiau yr oeddent wedi eu gosod ynddynt cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr wybodaeth a gawsant wedi bod yn ddigonol. Dywedodd rhai disgyblion y byddent wedi hoffi cael map o'u hysgol newydd, gan fod mynd ar goll yn yr ysgol newydd yn ofn cyffredin. Roedd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cofio hyn. Yn ôl un ohonynt: *'Rydw i'n credu y dylech chi wybod pa 'stafelloedd rydych chi'n mynd i fod ynddynt. Pan rydych chi'n dod yma, rydych chi'n meddwl o hyd lle rydych chi i fod.'* Dywedodd un arall *'Es i ar goll yn llwyr ar y diwrnod cyntaf'.* Er hynny, dywedodd y mwyafrif llethol eu bod wedi sylweddoli'n gyflym lle'r oedden nhw i fod i fynd.

## Canfyddiadau Allweddol

Roedd pob ysgol uwchradd yn darparu gwybodaeth ac yn trefnu ymweliadau gyda'r nos i rieni a disgyblion, a gallai rhieni drefnu cyfweliadau personol.

Pan fyddai rhieni'n dewis ysgol uwchradd y tu allan i'r pyramid, roedd hynny'n aml am resymau heb gysylltiad ag addysg, megis symud tŷ neu fod yn gyfleus i'r gwaith. Serch hynny, roedd ymlyniad crefyddol, cyfrwng ieithyddol yr ysgol uwchradd, ac enw da academaidd yr ysgol uwchradd yn ffactorau eraill.

Roedd ymweliadau'r staff uwchradd â'r ysgolion cynradd i gwrdd ac i roi gwersi i ddosbarthiadau Blwyddyn 6 yn broses ddefnyddiol i'r ddwy ochr; roedd yn gyfrwng o liniaru pryderon y disgyblion am athrawon a dulliau addysgu CA3 ac yn fodd i athrawon uwchradd ymgyfarwyddo â disgyblion ac â dulliau addysgu CA2.

# 6. Dilyniant rhwng CA2 a CA3

Edrychodd yr ymchwil ar ymwybyddiaeth ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion o arferion CA2 a CA3 mewn cyfnodau allweddol eraill ac ar strategaethau i addysgu staff a disgyblion wedi eu hanelu at wella dilyniant profiadau disgyblion rhwng CA2 a CA3.

## 6.1 Ymwybyddiaeth Gyfredol ar draws Cyfnodau Allweddol

Roedd ymwybyddiaeth athrawon o gynnwys cwricwlaidd a'r dulliau dysgu a ddefnyddid yn y sector 'arall' – cynradd neu uwchradd – yn dal i amrywio cryn dipyn, ond roedd yn fwy datblygedig erbyn hyn nag a fu. Tadogwyd hyn i'r cynnydd mewn hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar y cyd ac i gydweithredu ar brosiectau trosglwyddo a chynlluniau gwaith ar y cyd ac ymweliadau staff ar draws CA2 a CA3.

Hyd yn oed wedyn, roedd llawer o athrawon yn teimlo fod angen datblygu'r cysylltiadau ymhellach. Yn ôl un athro ysgol uwchradd *'Staff sydd â phlant oedran cynradd ac Athrawon Newydd Gymhwyso'* sy'n gwybod fwyaf am CA2. Teimlai llawer fod yna fwy o ymwybyddiaeth o faterion cwricwlaidd nag addysgu yn y dosbarth ac arddulliau dysgu a bod angen mynd i'r afael â hyn. Dywedodd un athrawes ysgol gynradd ei bod wedi derbyn mwy o wybodaeth am y cwricwlwm CA3 fel rhiant na fel athrawes. Teimlai llawer fod materion wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ond bod llawer yn dal yn dibynnu ar y cysylltiadau rhwng yr ysgolion cynradd a'r uwchradd. Yn ôl un pennaeth cynradd:

> *Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw [athrawon uwchradd] yn ymwybodol iawn cyn y rhwydwaith trosglwyddo. Roedden nhw fel petai'n meddwl mai chwarae o gwmpas gyda phethau oedden ni a dyna pam y bydden nhw'n dechrau ar bwynt penodol ar gyfer pob plentyn. Lle nawr maen nhw wedi gweld beth sy'n digwydd a faint y mae'r plant yn ei wneud, yn enwedig gyda gwyddoniaeth. Dwi'n meddwl fod hyn wedi agor eu llygaid a dwi'n siŵr y bydd yn arwain at well gydweithrediad a gwell cynllunio i'r plant pan fyddan nhw'n dechrau yn yr ysgol uwchradd.*

Teimlai athrawon fod dealltwriaeth gyfrannol ar draws cyfnodau allweddol yn gryfach ymhlith penaethiaid ar hyn o bryd nag ymhlith staff eraill gan fod ganddynt fwy o ran yn y cyfarfodydd pyramid ac yn natblygu strategaethau trosglwyddo na'r athrawon dosbarth. Nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i faterion

cwricwlaidd ond roedd yn cynnwys ethos ysgolion. Er enghraifft, roedd teimlad bod angen i rai ysgolion uwchradd adeiladu ar ethos perthnasoedd clos oedd yn cael ei adeiladu rhwng staff a disgyblion yn yr ysgolion cynradd.

## 6.2 Strategaethau ar gyfer Cydgysylltu CA2/CA3

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi trefnu HMS ar y cyd a dywedwyd fod llawer iawn o waith wedi digwydd yno i rannu arfer da ac i safoni gweithdrefnau. Er enghraifft, roedd un pyramid o ysgolion wedi cynnal diwrnod hyfforddi yn ffocysu ar reoli perfformiad ac un arall ar faterion cwricwlaidd. Enghraifft arall oedd diwrnod hyfforddi blynyddol lle byddai staff o bob ysgol bwydo'n cwrdd â staff adrannau yn yr ysgol uwchradd er mwyn datblygu prosiectau traws-gyfnod. Roedd y diwrnod hwn wedi bod yn fwy effeithiol nag mewn blynyddoedd blaenorol gan fod y cyfarfod yn canolbwyntio ar enghreifftiau o waith disgyblion unigol ac felly eu bod yn fwy canolbwyntiedig na'r trafodaethau cyffredinol gafodd eu cynnal yn y gorffennol a'u disgrifio gan un pennaeth fel *'siop siarad'*.

Mewn un ysgol uwchradd roedd llawer o'r staff heb eu hargyhoeddi am yr angen i neilltuo diwrnod hyfforddi i drosglwyddo. Serch hynny, gwelwyd fod y digwyddiad wedi rhoi golwg newydd ar bethau i staff ac wedi galluogi cynllunio rhai prosiectau pwysig a'u symud ymlaen. Cafodd neges debyg am werth y diwrnod hyfforddi a neilltuwyd i faterion trosglwyddo ei hadlewyrchu mewn sylwadau gan ysgol arall *'Ar y dechrau buom yn siarad am gynlluniau gwaith. Wrth edrych ar ddilyniant, bu rhai ohonynt yn siarad am fethodoleg ac roedd hwnnw'n ddiwrnod defnyddiol iawn … Roedd rhai ohonynt am fynd â hwnnw ymhellach. Rwy'n gwybod fod hanes, er enghraifft, eisoes wedi cael cyfarfod dilynol'.*

Ymhlith y cysylltiadau eraill oedd wedi cael eu datblygu rhwng athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd roedd:

- cyfarfodydd bob tymor rhwng penaethiaid ysgolion cynradd a staff
- cyfarfodydd rhwng arweinydd maes cwricwlaidd ysgolion cynradd a'r staff perthnasol yn yr ysgol uwchradd
- cysylltiadau rhwng staff cefnogi dysgu uwchradd a'r ysgolion cynradd
- cysylltiadau bugeiliol
- rhagor o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft chwaraeon a cherddoriaeth.

Mewn un ysgol roedd athrawon hanes wedi cwrdd â'r cydlynwyr hanes ym mhob ysgol gynradd i drafod gwahanol agweddau tuag at addysgu'r pwnc. Roedd rhai wedi gallu safoni rhai cynlluniau gwaith a datblygu cysylltiadau lle'r oedd enghreifftiau oedd wedi cael eu defnyddio mewn ysgolion cynradd yn cael eu cyfeirio atynt mewn ysgolion uwchradd.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd roedd y cysylltiadau cryfaf yn y pynciau craidd. Er enghraifft, roedd adrannau mathemateg a Saesneg a rhai adrannau gwyddoniaeth yn aml yn cydweithredu mwy â'u cydweithwyr cynradd, er bod rhai enghreifftiau o arfer da mewn pynciau eraill megis AG, Cymraeg a hanes.

Fodd bynnag, roedd maint y cyswllt rhwng staff yn amrywio hyd yn oed yn y pynciau craidd. Byddai rhai'n cwrdd bob hanner tymor ac eraill yn cwrdd bob tymor. Mewn un pyramid o ysgolion byddai staff pob un o'r ysgolion bwydo'n cwrdd â'r staff yn yr ysgol uwchradd bob tymor. Mewn dalgylch arall roedd cyd bwyllgor staff wedi cael ei sefydlu, oedd yn cwrdd bob hanner tymor i archwilio materion oedd yn achos pryder cyffredin. Mewn pyramid arall o ysgolion roedd athrawon wedi archwilio enghreifftiau o waith disgyblion ar wahanol gyfnodau allweddol ac yn trafod dulliau o gyfoethogi'r broses addysgu a dysgu.

Dywedodd ysgol arall ei bod wedi sefydlu grwpiau cefnogi cydlynydd cwricwlwm ar gyfer mathemateg, gwyddoniaeth ac ieithoedd modern. Roedd athrawon ysgol uwchradd wedi ymweld â'r ysgolion cynradd i arsylwi ymarfer a'r bwriad oedd y byddai staff yr ysgol gynradd yn ailadrodd yr ymweliad. Mewn un achos roedd y cysylltiadau cwricwlaidd wedi ffocysu ar feysydd oedd wedi eu nodi fel mannau gwan. Mewn pyramid arall o ysgolion bu cydlynydd gwyddoniaeth yr ysgol gynradd yn gweithio'n agos gyda'r athrawon gwyddoniaeth yn yr ysgol uwchradd. Roedd hyn wedi cynnwys yr athrawon uwchradd yn arsylwi yn y dosbarth a datblygu prosiect trosglwyddo'n pontio CA2 a CA3.

Dywedodd un ymatebydd fod effeithiolrwydd prosiect pontio wedi cael ei leihau gan fod rhai o'r ysgolion cynradd yn y pyramid hwnnw'n bwydo i mewn i wahanol ysgolion uwchradd oedd yn golygu bod rhai disgyblion wedi cychwyn y prosiect ond wedi methu â'i gwblhau. Pwynt arall a godwyd oedd mai athrawon CA1 oedd arweinyddion y cwricwlwm ar gyfer rhai pynciau oedd yn golygu eu bod *'ymhell iawn o'r ysgol uwchradd'*. Dywedodd llawer

o ysgolion ei bod yn ddyddiau cynnar ar y cysylltiadau a'i bod hi'n rhy gynnar i werthuso eu heffeithiolrwydd.

Teimlai nifer o ALlau ac ymarferwyr angen i adeiladu ar y mentrau presennol i wella trefniadau trosglwyddo drwy annog staff cynradd ac uwchradd i weithio gyda'i gilydd yn agosach. Ymhlith y mentrau oedd wedi cael eu datblygu neu gafodd eu trafod oedd:

- cyfleoedd i athrawon ymweld ag ysgolion eraill ac arsylwi'r methodolegau addysgu a ddefnyddir gan gydweithwyr yn addysgu cyfnodau eraill
- cydweithio i ddatblygu cynlluniau gwaith ar gyfer yr ysgolion cynradd neu i bontio'r trosglwyddo o CA2 i CA3
- cefnogi cysylltiadau mewn pynciau penodol
- sesiynau hyfforddi bugeiliol
- prosiectau ymchwil gweithredol
- cydweithio i ddatblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd
- defnyddio'r sefydlu ANG wedi'i gyflwyno ar sail traws-gyfnod

Roedd enghreifftiau unigol yn cynnwys lle'r oedd athrawon cynradd ac uwchradd wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu rhestr ddarllen a chynllun gwaith ar gyfer modiwl penodol oedd wedi cael ei addysgu yn yr ysgolion cynradd oedd yn bwydo'n uniongyrchol i waith adran Saesneg yr ysgol uwchradd.

Mewn ysgol uwchradd arall, roedd ANGon yn cael profiad o addysgu disgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd bwydo yn ystod eu blwyddyn gyntaf o addysgu er mwyn ennill persbectif gwell o'r dulliau addysgu ac o botensial y disgyblion hynny.

## 6.3 Rôl Cydlynwyr Trosglwyddo

Ym mhob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy roedd y rôl allweddol parthed trosglwyddo'n cael ei wneud gan aelod o staff oedd â chyfrifoldeb gweithredol dros drosglwyddo. Roedd swydd yr unigolyn oedd yn gwneud y gwaith yn amrywio. Mewn rhai ysgolion, dirprwy neu bennaeth cynorthwyol oedd yn cyflawni'r rôl, a Phennaeth Blwyddyn 7 mewn ysgolion eraill. Mewn un ysgol roedd Pennaeth Blwyddyn 7 yn perfformio'r un rôl bob blwyddyn ond mewn eraill roedd yr unigolyn yn 'symud' gyda'r disgyblion

drwy'r ysgol. Roedd swydd Cydlynydd Trosglwyddo neu Reolwr Trosglwyddo wedi cael ei chreu mewn rhai ysgolion.

Er gwaethaf y trefniadau gwahanol, roedd cryn gonsensws ynghylch cyfrifoldebau rôl y cydlynydd. Diffiniodd un ysgol y rôl fel a ganlyn:

- *mynychu cyfarfodydd penaethiaid cynradd/uwchradd gyda'r pennaeth a chysylltu gydag ysgolion sy'n bwydo*
- *trefnu a chydlynu amrywiaeth o ddigwyddiadau cyflwyno yn cynnwys dwy noson rieni, i hwyluso trosglwyddo disgyblion yn esmwyth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd*
- *cefnogi Pennaeth Blwyddyn 7 wrth gylchlythyru ysgolion cynradd sy'n bartneriaid a rhai lleoliad trwy ddewis i gasglu data CA2*
- *cefnogi Pennaeth Blwyddyn 7 wrth gylchlythyru ysgolion cynradd sy'n bartneriaid a rhai lleoliad trwy ddewis i gasglu gwybodaeth ar ddisgyblion y derbyniad newydd*
- *cysylltu â Chydlynwyr AAA parthed darpariaeth anghenion arbennig disgyblion unigol*
- *cysylltu â Chydlynwyr AAA parthed anghenion staffio grwpiau Anghenion Arbennig a staff cefnogi*
- *cysylltu â'r Cydlynydd Cwricwlwm i roi trefn derfynol ar grwpiau*
- *cysylltu â'r person sy'n llunio'r amserlen a Phennaeth Blwyddyn 7 parthed goblygiadau amserlennu*
- *gweithio gyda staff clerigol a'r person sy'n llunio'r amserlen i sefydlu cronfa ddata ar gyfer disgyblion y derbyniad newydd*
- *mewn cydweithrediad gyda Phennaeth Blwyddyn 7 a'r person sy'n llunio'r amserlen i ddadansoddi canlyniadau a gwybodaeth a gosod disgyblion mewn bandiau, grwpiau addysgu a grwpiau tiwtor priodol*
- *cysylltu â Phennaeth Addysg Gorfforol i osod disgyblion mewn grwpiau tŷ priodol.*

Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r cydlynwyr eu rôl fel cyfrwng i sicrhau trosglwyddo esmwyth o CA2 i CA3 ac i sicrhau fod disgyblion Blwyddyn 7 yn setlo i lawr yn eu hamgylchedd newydd yn hawdd ac yn gyflym. Dyma sut y disgrifiodd un cydlynydd y rôl:

> *ymweld â'r ysgolion cynradd i siarad â disgyblion a staff. Trefnu gwahanol weithgareddau yma yn y flwyddyn cyn Blwyddyn 7 …ac yna eu gosod yn eu dosbarthiadau yma …wedyn eu gweld nhw ym mis Medi, eu helpu i setlo i lawr a gobeithio i roi peth mewnbwn i'r rhaglen ABCh.*

Disgrifiodd un arall ei rôl fel hyn:

> *Byddaf yn ymweld â'r ysgolion cynradd – byddaf yn mynd fel arfer yr wythnos ar ôl gwyliau'r Sulgwyn. Byddaf yn gwneud trefniadau gyda'r ysgolion cyn hynny. Dwi'n mynd i'r cyfarfodydd clwstwr. Rydw i mewn cysylltiad â'r ysgolion cynradd yn gyson felly dwi'n gwneud y trefniadau wythnosau ymlaen llaw. Gallai hyd yn oed fod misoedd cyn i mi fynd ar yr ymweliad. Felly byddaf yn ymweld â'r 6 ysgol sy'n bwydo yn ystod yr wythnos ac unrhyw ysgolion eraill y mae disgyblion yn dod atom ohonynt, a byddaf yn siarad â'r plant. Wedyn byddaf yn siarad â'r staff am allu'r plant. Maen nhw'n rhoi rhestr o'r plant i mi yn eu trefn restrol. Maen nhw hefyd yn rhoi lefelau asesiad athro CA2 i mi. Maen nhw'n siarad â mi am y plant – unrhyw broblemau, unrhyw broblemau meddygol, unrhyw broblemau ymddygiad ac ati.*

## 6.4 Cysylltiadau rhwng Llywodraethwyr

Ychydig o ALlau oedd wedi sefydlu cysylltiadau ffurfiol rhwng llywodraethwyr ysgolion mewn pyramidiau ysgolion penodol. Serch hynny, roedd hyfforddiant ar y cyd yn cael ei drefnu ar gyfer pob llywodraethwr. Roedd hyn yn arbennig o wir am lywodraethwyr a benodwyd gan yr ALl. Teimlai llawer o ALlau fod gan hyfforddiant ar y cyd ar sail pyramidiau ysgol fanteision ond bod angen amser i ddatblygu hynny. *'Dim ond cychwyn y marathon ydyn ni'* oedd sylw un person ar y syniad. Ar y cyfan, roedd yr ALlau yn teimlo bod angen cael y cydbwysedd iawn rhwng hyfforddiant generig a hyfforddiant penodol i'r cyfnod ar gyfer llywodraethwyr.

Nid oedd unrhyw gysylltiadau ffurfiol rhwng llywodraethwyr yr ysgolion uwchradd a llywodraethwyr yr ysgolion cynradd bwydo yn unrhyw un o'r astudiaethau a astudiwyd, er bod enghreifftiau lle'r oedd unigolion yn gwasanaethu ar ddau gorff llywodraethol yn yr un dalgylch. Nid oedd y rhan fwyaf o benaethiaid uwchradd yn credu y byddai'n bosibl ffurfio cysylltiadau agosach rhwng llywodraethwyr. Yn ôl un pennaeth, roedd y syniad yn *'gwbl anymarferol'* gan fod gofyn i lywodraethwyr eisoes ymrwymo oriau lawer heb dderbyn llawer yn ôl ac roedd hi'n anodd dod o hyd i bobl fyddai'n fodlon ymgymryd â'r gwaith. Roedd nifer o'r lleill yn credu mai ychydig fyddai'n cael ei ennill drwy gynnwys llywodraethwyr yn y trefniadau trosglwyddo.

## 6.5 Trosglwyddo Data ar Gyrhaeddiad Academaidd

Y mathau o wybodaeth ar gyrhaeddiad disgyblion oedd yn cael ei darparu gan ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd oedd:

- lefelau cenedlaethol profion a thasgau CA2
- marciau profion cenedlaethol CA2
- asesiadau athro
- oedran darllen ar gyfer disgyblion ag AAA
- sylwadau athrawon

Dywedodd llawer o ysgolion fod eu ALlau wedi datblygu gweithdrefnau safonol i drosglwyddo gwybodaeth ar ddisgyblion o'r ysgolion cynradd i'r ysgolion uwchradd. Roedd yr ALlau yn nodi pa ddata ddylai gael ei drosglwyddo ac mewn rhai achosion roedd copïau o'r data ar ddisgyblion yn cael eu hanfon at yr ALl yn ogystal ag at yr ysgolion uwchradd. Bwriad hyn oedd sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn derbyn yr un faint o ddata a'i fod yn ddigonol iddynt allu cymryd penderfyniadau gwybodus am anghenion bugeiliol disgyblion ac am eu gofynion academaidd, yn cynnwys pennu targedau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion unigol. Er enghraifft, mewn un ALl yng Ngogledd Cymru roedd gofyn i ysgolion cynradd:

- ddarparu manylion yr asesiadau athro ar gyfer y pynciau craidd, a marc y prawf CA2 statudol a lefel profion ar gyfer y pynciau craidd
- sicrhau fod copïau o'r holl brofion a chynlluniau marcio ar gyfer y profion unigol ar gael
- trosglwyddo sgriptiau'r disgyblion
- darparu dadansoddiad o sgriptiau unigol ar bro fforma safonol
- anfon copi o adroddiad Blwyddyn 6 pob disgybl i'r ysgol uwchradd
- rhoi deilliannau unrhyw brofion safonol ysgrifenedig a wnaethpwyd yn ystod Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6
- sicrhau fod Cynlluniau Dysgu Unigol disgyblion ag AAA, rhaglenni bugeiliol a Chynlluniau Dysgu Personol yn cael eu hanfon i'r ysgol uwchradd
- rhoi enghreifftiau o waith gorau'r disgyblion yn y pynciau craidd
- darparu gwybodaeth am bresenoldeb.

Mae'r ALl dan sylw'n darparu dadansoddiad ysgrifenedig o'r wybodaeth yn seiliedig ar yr asesiad CA2 ei hun. Gall ysgolion ddefnyddio hwn i osod targedau ar gyfer disgyblion.

Teimlai penaethiaid yr ysgolion cynradd fod yr wybodaeth yr oeddent yn ei hanfon at yr ysgolion uwchradd yn ddigonol, er bod lleiafrif ohonynt yn teimlo fod angen cyflwyno darlun mwy holistig o bob plentyn. Teimlai llawer ohonynt fod yr wybodaeth yn ddigonol i'r ysgolion uwchradd wneud penderfyniadau gwybodus er nad oedd neb yn siŵr beth oedd y penderfyniadau hynny. Serch hynny, dywedodd dau bennaeth cynradd fod yr ysgolion uwchradd yr oedd eu disgyblion hwy'n trosglwyddo iddynt yn pennu setiau addysgu Blwyddyn 7 y disgyblion ar sail yr wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgolion cynradd.

Teimlai'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd fod yr wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn ar gyrhaeddiad academaidd disgyblion yn ddigonol. Dywedodd nifer ohonynt fod cyflwyno'r pro fforma safonol gan yr ALl, oedd yn cael ei ddefnyddio gan bob ysgol gynradd, wedi helpu drwy ddarparu'r wybodaeth ofynnol mewn un fformat. Serch hynny, dywedodd rhai ysgolion uwchradd fod eu hysgolion cynradd bwydo yn amrywio o ran yr wybodaeth yr oeddent yn ei hanfon a bodd graddau o anghysondeb o hyd y gellid ei briodoli i ffactorau penodol mewn ysgolion unigol, megis absenoldeb staff.

Dywedodd llawer o gydlynwyr ysgolion uwchradd fod yr wybodaeth oedd yn cael ei darparu gan yr ysgolion yn cael ei defnyddio i hysbysu penderfyniadau yn yr ysgol uwchradd. Dywedodd rhai ysgolion eu bod wedi cynhyrchu llyfryn yn cynnwys manylion pob disgybl. Er enghraifft, roedd ysgol cyfrwng Gymraeg yn darparu un oedd yn cael ei gyflwyno i bob athro oedd yn addysgu disgyblion Blwyddyn 7 ac oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar y disgyblion. Fodd bynnag, mynnodd y cydlynydd fod y rhain yn cael eu *'geirio'n ofalus iawn'* er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn cychwyn gyda llechen lân ac nad oedd neb yn cael ei stigmateiddio mewn unrhyw ffordd. Mewn ysgol arall roedd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i staff bugeiliol a phenaethiaid adrannau'n unig. Dywedodd yr holl ysgolion uwchradd eu bod yn defnyddio'r wybodaeth wrth osod disgyblion mewn gwahanol ddosbarthiadau ym Mlwyddyn 7. Er enghraifft, pwysleisiodd un ysgol yr angen am ddosbarthiadau gallu cymysg ym Mlwyddyn 7 a dywedodd fod y data oedd yn cael ei ddarparu gan yr ysgolion cynradd yn hanfodol ar gyfer

hyn. Roedd ysgolion eraill wedi cyflwyno system o 'fandio' disgyblion drwy gydol CA3 yn y pynciau cwricwlwm yn seiliedig ar wybodaeth gan ysgolion cynradd, tra'n cadw dosbarthiadau cofrestru gallu cymysg.

Dywedodd y rhan fwyaf o Benaethiaid Adran ysgolion uwchradd gafodd eu cyfweld eu bod yn defnyddio'r wybodaeth oedd yn cael ei darparu gan yr ysgolion cynradd mewn dwy ffordd: i hysbysu penderfyniadau am fandio disgyblion yn ôl eu gallu ac i gymharu eu hasesiadau cychwynnol o ddisgyblion gyda chanlyniadau diwedd CA2. Defnyddid yr wybodaeth hon hefyd i nodi pa ddisgyblion oedd angen cefnogaeth ychwanegol mewn meysydd arbennig megis llythrennedd a rhifedd. Dywedodd y rhan fwyaf o Benaethiaid Adran fod llawer mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r wybodaeth a ddanfonir gan ysgolion cynradd nag yn y gorffennol.

Er hynny, roedd rhai ysgolion cynradd yn pryderu nad oedd digon o ddefnydd ar yr wybodaeth yr oeddent yn ei rhoi i ysgolion uwchradd. Yn ôl un pennaeth cynradd '*Y broblem yw nad ydw i'n meddwl eu bod yn mynd i'r llefydd iawn. Rydw i'n meddwl fod y ffeiliau yna'n diweddu i fyny yn rhywle a elwir yn ofal bugeiliol a dwi ddim yn credu fod neb yn edrych arnyn nhw oni bai bod problem fawr yn codi'*. Meddai un arall *'Os byddwch chi'n anfon pethau na fyddan nhw'n eu defnyddio atyn nhw, gwastraff papur ac amser yw hynny.'*

## 6.6 Trosglwyddo Gwybodaeth Gefndir ar Ddisgyblion

Roedd y math o wybodaeth am ddisgyblion oedd yn cael ei throsglwyddo i ysgolion uwchradd yn cynnwys:

- gwybodaeth am gryfderau a gwendidau disgyblion
- presenoldeb
- gweithgareddau allgyrsiol
- ffrindiau
- iaith y cartref
- iechyd
- ymddygiad
- potensial mewn perthynas â chwaraeon
- doniau cerddorol neu berfformio.

Dywedodd dau gydlynydd trosglwyddo ysgol uwchradd y byddai mwy o wybodaeth gefndir am ddisgyblion yn ddefnyddiol, yn enwedig materion megis cefndir teuluol a chyfranogiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Lles Iechyd gydag achosion unigol. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod y rhain yn faterion sensitif yn aml y teimlai athrawon ysgol gynradd na ellid eu datgelu, yn enwedig lle'r oeddent wedi derbyn yr wybodaeth yn gyfrinachol.

Mewn un ysgol, roedd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei chadw gan y Pennaeth Blwyddyn mewn cwpwrdd dan glo, a dim ond pan fyddai ei hangen y byddai'n cael ei hygyrchu. Roedd hyn yn cynnwys adegau pan fyddai angen cynllunio cefnogaeth ar gyfer disgybl. Serch hynny, mewn ysgolion eraill roedd yr wybodaeth gefndir yn cael ei defnyddio'n ehangach. Yn ôl un cydlynydd:

> *Flynyddoedd yn ôl roedd gennym ni system lle bernid mai dim ond y staff bugeiliol ddylai gael yr wybodaeth honno nes bod rhywbeth mawr yn codi, lle erbyn hyn rydym yn teimlo fod athrawon yn cael eu rhagrybuddio ac efallai na fydd y ffrwydradau'n digwydd.*

## 6.7 Ymweliadau ag ysgolion cynradd

Dywedodd yr holl gydlynwyr ysgol uwchradd eu bod yn ymweld â'u hysgolion cynradd bwydo i gwrdd â disgyblion Blwyddyn 6 ac roedd nifer cynyddol ohonynt yn cwrdd â disgyblion Blwyddyn 5 hefyd. Roedd ymweliadau hefyd yn cael eu trefnu gan y cydlynwyr AAA yn yr ysgol uwchradd. Mewn rhai ardaloedd, byddai Penaethiaid Adran ysgolion uwchradd yn ymweld â'r ysgolion cynradd, er nad oedd pob Pennaeth Adran yn ymweld â phob ysgol mewn unrhyw achos. Ceir enghreifftiau o rôl Penaethiaid Adran wrth ddatblygu cysylltiadau cwricwlaidd sy'n hybu arfer da mewn trosglwyddo yn yr Astudiaethau Achos. Dywedodd yr holl ysgolion eu bod yn cwrdd â disgyblion fel dosbarth cyfan. Dywedodd dau gydlynydd eu bod wedi ceisio cwrdd â disgyblion yn unigol ond wedi cael bod hynny'n cymryd gormod o amser. Fodd bynnag, roedd hi'n bosibl trefnu sesiynau unigol pe byddai rhieni'n gwneud cais am hynny. Roedd dau gydlynydd trosglwyddo'n meddwl oherwydd bod mwy o gystadleuaeth am ddisgyblion yn yr ardal nag yn y gorffennol, roedd mwy o bwyslais ar hybu'r ysgol a sicrhau fod trefniadau trosglwyddo disgyblion yn cael eu gwella.

Roedd graddau'r ymweliadau'n amrywio. Cyfeiriodd un ysgol oedd â 13 ysgol gynradd bwydo at broblemau logistaidd ymweld â phob un ohonynt yn rheolaidd oherwydd y gwaith oedd ynghlwm o ran trefnu'r ymweliadau a gweithio o gwmpas amserlen pob ysgol gynradd.

Roedd y math o wybodaeth oedd yn cael ei darparu gan athrawon ysgol uwchradd i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cynnwys:

- pa offer fyddai ei angen arnynt
- y gofynion o ran y wisg ysgol
- pwy oedd yn dysgu pa bynciau
- trefniadau ar gyfer addysgu Addysg Gorfforol
- y ffordd y mae'r ysgol wedi'i threfnu
- amserlenni
- cyfleoedd allgyrsiol.

Y pynciau oedd yn cael eu codi amlaf gan ddisgyblion Blwyddyn 6 oedd:

- pryderon ynghylch bwlian
- ymholiadau am ddillad ysgol
- ymholiadau am ddisgyblaeth
- ymholiadau am bynciau newydd.

Un o'r ffactorau pwysicaf oedd lleddfu unrhyw ofnau oedd gan ddisgyblion am yr ysgol uwchradd, yn aml oherwydd syniadau camsyniol. Yn ôl un cydlynydd: *'Yr un hen beth o hyd, oes gennym ni ysbryd, ydyn nhw'n gwthio'ch pen chi i lawr y toiledau, ydyn ni'n gosod gormod o waith cartref, ydyn ni'n rhoi 'detentions'?'* Yn arwyddocaol: *'Mae bwlian yn broblem bob amser; mi fydda i'n ei godi os nad ydyn nhw'n sôn amdano.'*

Dywedodd pob cynrychiolydd ysgol gynradd fod ymweliadau gan staff o'r ysgolion uwchradd yn nodwedd allweddol o'r broses. Meddai un pennaeth *'Dwi'n meddwl fod hynny'n bwysig iawn. Mae'n tawelu ofnau'r plant ac yn rhoi cyfle iddyn nhw holi cwestiynau mewn amgylchedd lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel iawn achos mae'r hen straeon o gwmpas o hyd, y straeon tylwyth teg am beth sy'n digwydd yn yr ysgol uwchradd, ac maen nhw'n eithaf pryderus am hynny.'*

Dywedodd dros ddau draean o'r ysgolion fod disgyblion oedran uwchradd yn mynd i gwrdd â disgyblion Blwyddyn 6 i siarad am yr ysgol ac i ateb unrhyw gwestiynau. Roedd y gwahanol drefniadau'n cynnwys:

- mynd â disgyblion Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 8 oedd wedi mynychu'r ysgolion cynradd hynny
- mynd â swyddogion
- mynd â disgyblion fyddai'n llysgenhadon da i'w hysgolion.

Canmolodd nifer o benaethiaid cynradd yr arfer o wahodd disgyblion Blwyddyn 7 i gwrdd â'r disgyblion cynradd. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, dywedwyd fod agwedd y disgyblion uwchradd yn un cyfrifol. Er enghraifft, meddai pennaeth ysgol fechan yng nghefn gwlad Cymru *'Mae'r rhain yn blant hyfryd – fydden nhw ddim yn breuddwydio ypsetio'r lleill'.*

## 6.8 Ymweliadau Blwyddyn 6 ag ysgolion uwchradd

Roedd pob ysgol yn trefnu bod disgyblion ysgol gynradd yn ymweld â'r ysgol uwchradd cyn Blwyddyn 7. Roedd y trefniadau'n amrywio. Mewn llawer o ysgolion, y patrwm oedd i'r ysgol uwchradd gynnal noson agored i ddisgyblion a rhieni yn ystod mis Tachwedd, ac yna byddai ymweliad diwrnod cyfan yn digwydd ym mis Gorffennaf yn cynnwys gwersi blasu. Mewn ysgol arall, roedd y disgyblion yn mynd i'r ysgol uwchradd am ddau ddiwrnod o wersi fel dosbarth cyfan a hefyd am ddau ddiwrnod mewn parau gyda disgyblion o ysgolion eraill.

Roedd llawer o ysgolion yn trefnu amserlen oedd yn rhoi profiad ehangach o fywyd yr ysgol i ddarpar ddisgyblion. Roedd hyn yn golygu dilyn amserlen lle'r oedd gwers yn para am hanner hyd gwers arferol, gan roi profiad iddynt o waith gweithdy, defnyddio TG, ieithoedd modern ac o bethau fel yr awr ginio a defnyddio bysys ysgol. Mewn un achos aeth disgyblion i'r ysgol uwchradd am wersi gwyddoniaeth a thechnoleg tra bod ysgol arall wedi prynu meddalwedd wedi'i dylunio ar gyfer ysgolion cynradd i'w defnyddio yn ystod ymweliadau disgyblion Blwyddyn 6. Roedd dwy ysgol hefyd yn trefnu'r ymweliadau hyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4. Ym mhedwar o bob pump o'r ysgolion sampl, roedd disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd o leiaf ddwywaith.

## 6.9 Prosiectau trosglwyddo

Roedd sawl pyramid o ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu prosiectau trosglwyddo i helpu gyda'r trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cychwyn ym Mlwyddyn 6 dan gyfarwyddyd yr athro ysgol gynradd ac yn cael eu cwblhau ym Mlwyddyn 7 dan athro arall. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion roedd yr athrawon ysgol uwchradd yn addysgu'r rhaglen bontio yn yr ysgol gynradd ac mewn un achos roedd disgyblion ysgol gynradd yn mynychu gwersi yn yr ysgol uwchradd.

Mewn un achos roedd yr ALl wedi datblygu 'pasport gwyddoniaeth' oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol, ac oedd yn gofyn i ddisgyblion ateb cwestiynau fel:

- *Pa sgiliau gwyddonol mae'ch teulu a'ch ffrindiau yn eu defnyddio yn eu swyddi?*
- *Sut ydych chi'n hoffi dysgu gwyddoniaeth? Gallai hyn fod drwy'ch athro, mewn llyfrau, drwy wneud arbrofion, drwy siarad â'ch ffrindiau neu drwy feddwl am broblemau yn eich ffordd eich hun.*
- *Esboniwch beth yw ystyr gwyddoniaeth i chi.*
- *Esboniwch pam eich bod yn meddwl fod gwyddoniaeth yn bwysig.*

Roedd adrannau eraill yn cynnwys:

- hunan ddadansoddiad disgyblion o'u sgiliau mewn gwyddoniaeth
- eu sgiliau ymarferol
- eu gwybodaeth o reolau diogelwch y labordy
- diagram o wresogydd Bunsen
- ymchwiliadau yr oeddent wedi eu gwneud ym Mlwyddyn 6
- ymchwiliadau yr oeddent wedi eu gwneud ym Mlwyddyn 7.

Datblygodd un pyramid o ysgolion raglen bontio ar gyfer Saesneg. Roedd pob athro yn yr ysgol uwchradd yn gweithio gyda grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8, gan ofyn i bob un ohonynt enwi eu hoff lyfr. Roedd disgwyl iddynt ddarllen darnau o'u llyfr, siarad amdano ac ateb cwestiynau disgyblion eraill. Wedyn byddai grwpiau o ddisgyblion o'r ysgol uwchradd yn ymweld â'r ysgol gynradd i ddangos i ddisgyblion Blwyddyn 6 sut i siarad am hoff lyfr. Byddai'r ysgolion cynradd yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 gan

ofyn iddynt baratoi darlleniadau a siarad am eu barn. Yn ystod tymor yr haf daethpwyd â'r disgyblion i'r ysgol uwchradd am sesiwn lle byddent yn cwrdd â disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ac yn cyfnewid barn am eu hoff lyfrau. Drwy wneud hyn y gobaith oedd:

- *ysgogi diddordeb mewn darllen am bleser*
- *helpu i baratoi disgyblion Blwyddyn 6 ar gyfer eu dyfodol*
- *datblygu cysylltiadau llawer cryfach rhwng staff ym mhob ysgol, yn enwedig arsylwi cyfoedion o wersi ac arddulliau addysgu.*

Roedd gweithio ar gynlluniau gwaith cyffredin heb ddatblygu digon mewn nifer o ysgolion er bod y staff gafodd eu cyfweld yn cydnabod y gallai hyn fod yn ddatblygiad pwysig. Mewn rhai ardaloedd roedd y broses yn cael ei llesteirio gan ddiffyg ymgynghorwyr ALl yn y pwnc.

## 6.10 Sefydlu a chynghori

Pwysleisiai llawer o ysgolion uwchradd rôl digwyddiadau sefydlu a'r gefnogaeth barhaus oedd yn cael ei rhoi i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7. Er enghraifft, roedd dwy ysgol yn trefnu cwrs sefydlu ar gyfer y rhai oedd yn dod i mewn i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 12. Roedd un yn trefnu rhaglen ddeuddydd ar gyfer y rhai oedd yn dod i mewn i Flwyddyn 7 oedd yn ceisio datblygu perthynas gadarnhaol rhwng aelodau hŷn ac iau'r ysgol a helpu disgyblion Blwyddyn 7 setlo i mewn yn eu hamgylchedd newydd. Cyfeiriodd ysgol arall at *'sefydlu parhaus sy'n cael ei gyflwyno yn ystod y tymor cyntaf'* yn cynnwys sut i drefnu eich hun, sut i flaenoriaethu gwaith, sut i weithio gyda phobl eraill, a sut i ddatblygu doniau unigol, oedd yn cael ei gyflwyno drwy ABCh fel themâu trawsbynciol yn y cwricwlwm.

Y tiwtor dosbarth, gyda chefnogaeth Pennaeth Blwyddyn 7, oedd yn cymryd y rôl allweddol wrth gynghori disgyblion Blwyddyn 7. Disgrifiodd ysgol arall sut yr oedd staff cefnogi yn yr ysgol yn derbyn hyfforddiant ar gynghori. Roedd rhai ysgolion wedi cyflwyno system cefnogi cymheiriaid lle'r oedd disgyblion yn cael eu dewis yn fentoriaid ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac yn cael hyfforddiant ar sut i'w cynghori.

Mewn lleiafswm o'r ysgolion uwchradd roedd system bydi'n cael ei weithredu. Golygai hyn fod pob disgybl newydd yn cael mentor wedi'i bennu

o blith grŵp blwyddyn hŷn. Byddai’r disgyblion hŷn yn cynghori ac yn cefnogi’r newydd-ddyfodiaid yn bennaf yn y maes bugeiliol, ond hefyd mewn gwaith cwricwlaidd, yn cynnwys rheoli gwaith cartref. Roedd enghreifftiau o ddisgyblion hŷn yn cael eu dynodi i wrando ar ddisgyblion Blwyddyn 7 yn darllen yn uchel, yn enwedig y rheiny ag anghenion addysgol arbennig.

## 6.11 Polisïau ar bontio AAA

Dywedodd llawer o ALlau fod ganddynt bolisïau wedi’u datblygu’n dda i sicrhau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion ag AAA. Roedd hyn yn seiliedig ar hanes o gydweithio clos rhwng staff ysgolion, gyda chefnogaeth yr ALl, i ddatblygu gweithdrefnau effeithiol i gefnogi disgyblion ag AAA i symud i’r ysgol uwchradd. Roedd un ALl yn trefnu rhaglen llythrennedd a rhifedd dros yr haf oedd yn ceisio cefnogi’r trosglwyddo i ddisgyblion ag AAA ochr yn ochr â disgyblion eraill.

Roedd pob un o’r ysgolion uwchradd yn sicrhau fod y cydlynydd AAA yn yr ysgol uwchradd yn ymweld â phob ysgol gynradd bwydo. Byddent yn mynychu adolygiadau datganiad ac yn trafod disgyblion unigol gyda’r athrawon cynradd ac yn ymgyfarwyddo ag adroddiadau’r seicolegydd addysg, Cynlluniau Dysgu Unigol a dogfennaeth arall.

Meddai un cydlynydd AAA cynradd (SENCO): *Mae’r SENCO o’r ysgol uwchradd yn ymweld â ni bob blwyddyn i ddod i adnabod ein disgyblion Blwyddyn 6 ag anghenion arbennig. Mae’n holl ddata ni ar y plant hyn yn cael ei drosglwyddo ymlaen i adran anghenion arbennig yr ysgol uwchradd pan fydd y disgyblion yn trosglwyddo. Rydym yn meddwl fod hyn yn gweithio’n dda.*

Mynegodd rhai ysgolion bryder gan nodi er bod y trefniadau ar gyfer disgyblion â datganiad yn ddigonol, nid oedd yr un peth yn wir am y rheiny ag AAA nad oedd ganddynt ddatganiad. Teimlent y dylid archwilio’r mater hwn yn fwy trylwyr er mwyn sicrhau fod y disgyblion hynny’n derbyn cefnogaeth ddigonol. Roedd un ysgol yn anfon llythyr at bob ysgol gynradd ddechrau mis Mawrth yn gofyn am wybodaeth am ddisgyblion heb ddatganiad ac yn gofyn am eu hargymhellion ynghylch faint o gefnogaeth fyddai ei hangen ar y disgyblion hynny. Byddai’r wybodaeth berthnasol wedyn yn cael ei dosbarthu i’r athrawon priodol. Mewn un ysgol roedd yr holl ddisgyblion ag AAA yn

cael eu gosod mewn un set ym Mlwyddyn 7. Mewn ysgolion eraill roedd disgyblion ag AAA yn cael eu hintegreiddio ym mhob dosbarth ond yn cael eu tynnu allan o rai gwersi, megis mathemateg a Saesneg, i weithio'n unigol gydag athrawon cefnogi.

Cafodd yr angen i sicrhau bod gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA yn cael ei lledaenu'n effeithiol i'r holl staff yn yr ysgol uwchradd hefyd ei nodi. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd dywedwyd:

> *Mae gennym blentyn â Syndrom Asberger yma ac rydym wedi ymdopi'n dda gydag ef yn y brif ffrwd, ond rydw i'n meddwl y bydd yn cael ei eithrio pan fydd yn mynd i'r ysgol [uwchradd] achos mae'r plentyn yn fachgen deallus ond mae ganddo ymddygiad heriol ac mae rhai sbardunau'n effeithio arno ac rydym ni'n gwybod beth ydyn nhw ac yn eu hosgoi. Ond os aiff i mewn i ddosbarth neu os yw yn y coridor yn camymddwyn a bod athro heb wybod fod Syndrom Asberger arno fe, gall yn hawdd iawn waethygu o wrthdaro i sefyllfa all arwain ato'n cael ei eithrio …dydyn nhw (yr athrawon) ddim yn ei drin yn wahanol, maen nhw'n ystyried ei sefyllfa.*

## 6.12 Cynnydd mewn Addysgu Cymraeg

Ychydig o ALlau oedd â pholisi i sicrhau cynnydd priodol mewn addysgu Cymraeg o CA2 i CA3. Yr unig reolaethau cenedlaethol y cyfeiriwyd atynt oedd bod rhaid i ddisgyblion oedd yn ymgeisio yn yr asesiadau statudol CA3 Cymraeg sefyll yr arholiad TGAU Mamiaith Cymraeg ar ddiwedd CA4. Serch hynny, nid oedd rheidrwydd i ddisgyblion oedd yn cael eu hasesu yn Gymraeg (Mamiaith) yn CA2 gael eu cyflwyno ar gyfer yr asesiadau statudol Cymraeg (Mamiaith) yn CA3.

Oherwydd hyn, dywedodd tair ysgol uwchradd oedd yn addysgu Cymraeg fel Mamiaith eu bod yn gosod rhai disgyblion mewn setiau Ail Iaith er eu bod wedi cymryd yr asesiad statudol CA2 Cymraeg (Mamiaith). Yn ôl un pennaeth, yr esboniad am hyn oedd *'pwysau gan rieni'* ac roedd yn achos pryder i rai ysgolion cynradd oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd *'dysgwyr da'n parhau gyda'r iaith fel y dylent'.* Mewn un ysgol yng Ngogledd Cymru oedd yn dysgu Cymraeg fel mamiaith, roedd traean o'i disgyblion yn trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg ond roedd y lleill yn mynd i ysgol nad oedd wedi'i dynodi'n un cyfrwng Cymraeg lle'r oeddent yn cael eu haddysgu fel disgyblion ail iaith. Teimlai staff yr ysgol gynradd fod hyn yn tanseilio eu gwaith yn dod â'r plant hyn i lefel siaradwyr Mamiaith.

Roedd yr un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg benodedig yn cynnal cysylltiadau agos iawn rhwng ei hadran Gymraeg a'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg oedd yn ei bwydo, ac roedd wedi datblygu cynlluniau gwaith cyffredin yn Gymraeg, yn cynnwys y patrymau iaith oedd yn cael eu dysgu, i'w gweithredu ar draws y clwstwr cynradd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd a chynradd yn y sampl yn dysgu Cymraeg fel Ail Iaith yn unig. Roedd cysylltiadau rhwng adrannau Cymraeg yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd oedd yn eu bwydo yn eithriadau yn hytrach nag yn beth arferol. Er enghraifft, dim ond lleiafrif o'r adrannau Cymraeg uwchradd oedd yn trefnu bod eu hysgolion bwydo'n addysgu i gynllun gwaith cyffredin yn CA2 er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn cychwyn Blwyddyn 7 ar lefel cyffredin o brofiad. Un anhawster mynych wrth sicrhau dilyniant yn Gymraeg o CA1 ymlaen i CA3 oedd prinder athrawon Cymraeg cymwysedig yn y sector cynradd. Mewn rhai ysgolion nid oedd yr athro oedd yn gyfrifol am addysgu Cymraeg yn CA2 yn rhugl yn y Gymraeg. Lle'r oedd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol uwchradd gyda phrofiadau gwahanol iawn o ddysgu Cymraeg fel Ail Iaith yn CA2, roedd rhaid i'r adran Gymraeg yn aml fynd â'r disgyblion yn ôl i bwynt cyffredin oedd yn cael effaith negyddol ar gynnydd y disgyblion mwyaf datblygedig.

Fodd bynnag, amlygodd nifer o ysgolion fentrau trosglwyddo yr oeddent yn rhan ohonynt. Roedd un ALl oedd yn gwasanaethu ardal lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn argymell y dylai pob disgybl oedd wedi astudio Cymraeg fel Mamiaith yn CA2 barhau i wneud hynny yn CA3. Roedd yr ALl wedi datblygu offerynnau asesu i fesur perfformiad mewn Cymraeg fel Ail Iaith ym Mlwyddyn 6 oedd yn cael eu gweinyddu yn ystod yr un wythnos â'r asesiadau statudol. Roedd canlyniadau'r profion yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Roedd asesiad athro'n mynd gyda'r canlyniadau ar allu'r disgyblion mewn Cymraeg fel Ail Iaith, a'r asesu'n digwydd ym Mlynyddoedd 2, 4 a 6. Dywedodd y swyddog fod y rhan fwyaf o ysgolion yn yr ALl hwnnw wedi mabwysiadu'r polisi hwn. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr ALl fod rhaid darparu adnoddau digonol ar gyfer hwn er mwyn i ddisgyblion gael eu cefnogi'n ddigonol yn yr ysgolion uwchradd.

Cyfeiriodd nifer o ALlau at brosiectau trosglwyddo yn Gymraeg oedd wedi cael eu datblygu gan byramidiau penodol o ysgolion. Er enghraifft, roedd un

ALl wedi cefnogi un pyramid o ysgolion i ddatblygu prosiect pontio lle'r oedd disgyblion yn dechrau cynhyrchu cylchgrawn oedd yn cael ei gwblhau ym Mlwyddyn 7. Mewn pyramid arall o ysgolion roedd ffocws wedi'i roi ar rannu arfer da wrth addysgu Cymraeg fel Ail Iaith drwy weithio cydweithredol rhwng yr athrawon ysgol gynradd a'r athrawon Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

## 6.13 Safbwynt y Disgyblion

Gofynnwyd i o leiaf un grŵp o ddisgyblion ym mhob ysgol gynradd am eu teimladau ynghylch symud i'r ysgol uwchradd. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn edrych ymlaen. Ymhlith y rhesymau a gafwyd oedd:

- y cyfle i wneud ffrindiau newydd
- astudio pynciau newydd, yn cynnwys ieithoedd modern
- cael safbwyntiau newydd ar bynciau fel gwyddoniaeth a thechnoleg a chwaraeon drwy gyfrwng gwell cyfleusterau
- amgylchedd newydd
- rhyddid i ddewis bwyd amser cinio
- symud o gwmpas o athro i athro
- amrywiaeth ehangach o chwaraeon
- mwy o gyfle i gystadlu e.e. mewn cystadlaethau diwylliannol a chwaraeon.

Eu prif bryderon oedd:

- gorfod codi'n gynharach i ddal y bws ysgol
- natur fwy heriol rhai pynciau yn yr ysgol uwchradd
- mwy o waith cartref
- perygl bwlian
- bod yr ieuengaf yn yr ysgol.

Gofynnwyd i ddisgyblion Blynyddoedd 6 a 7 a oeddent yn teimlo'n hyderus ynghylch pwy i fynd atynt i geisio cymorth yn yr ysgol newydd. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt mai'r person cyntaf y byddent yn mynd ato/i pe byddai ganddynt unrhyw anawsterau yn yr ysgol uwchradd fyddai'r athrawon dosbarth. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 7 fod pethau'n haws gan fod yr holl blant eraill yn yr un sefyllfa. Y ffactor pwysicaf oedd athro dosbarth oedd wedi bod yn barod i helpu ac wedi eu cynorthwyo i setlo i lawr. Ymhlith y profiadau negyddol roedd:

- disgybl wedi cael ei rhoi mewn dosbarth lle nad oedd ganddi unrhyw ffrindiau
- addasu i'r angen i fod yn fwy hunan-ddibynnol, er enghraifft cael cosb am fod yn hwyr i wersi
- ffurfio perthynas gyda chymaint o athrawon lle mai dim ond gydag un neu ddau yr oedd angen gwneud hynny yn yr ysgol gynradd.

Roedd teimladau cymysg am y gwaith oedd yn cael ei osod yn yr ysgol uwchradd. Teimlai tua hanner y disgyblion Blwyddyn 7 nad oedd y gwaith yr oedd disgwyl iddynt ei wneud mor anodd ag yr oeddent wedi rhagweld: *'Pan oedden ni'n dod i fyny roeddwn i'n meddwl y byddai'n anodd iawn, ond dydy e ddim'* meddai un ohonynt. Meddai un arall, *'Y peth gwaethaf yw poeni amdano. Dydy o ddim yn anodd unwaith eich bod chi yma. Rydych chi'n poeni amdano achos dydych chi ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd'.*

Dywedodd lleiafrif ohonynt eu bod wedi gwneud peth o'r gwaith yn yr ysgol gynradd. Yn arwyddocaol, roedd rhai disgyblion oedd wedi ailadrodd gwaith ym Mlwyddyn 7 yn yr un dosbarthiadau â disgyblion yr oedd y gwaith yn newydd iddynt. Mae hyn yn dangos fod gwahanol ysgolion cynradd yn dal i ddarparu gwahanol brofiadau dysgu i'w disgyblion er gwaethaf canllawiau a bwriadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mewn rhai ysgolion roedd disgyblion yn teimlo fod yr amrywiaeth o waith yn llawer ehangach nag yn yr ysgol gynradd oedd yn golygu fod rhaid iddynt weithio'n llawer caletach. Yn benodol, roeddent yn cyfeirio at gychwyn pynciau newydd, megis ieithoedd modern, fel rhywbeth oedd yn arbennig o heriol. Teimlai rhai bod pynciau penodol yn cael eu cyflwyno'n fwy damcaniaethol nag ym Mlwyddyn 6. Er enghraifft, roedd un grŵp disgyblion wedi cael eu haddysgu mwy am liw a gwead mewn celf yn yr ysgol uwchradd nag yn yr ysgol gynradd lle'r oedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn ymarferol.

Teimlai un grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn siomedig oherwydd y gwahanol arddulliau addysgu oedd yn cael eu defnyddio yn yr ysgol uwchradd. Un sylw oedd, *'Roedd hanes yn fwy o hwyl yn yr ysgol gynradd, nawr dim ond ysgrifennu ydyn ni.'* Soniwyd am bwynt perthynol mewn ysgol arall lle dywedodd disgyblion fod awyrgylch mwy hamddenol yn yr ysgol gynradd a llawer mwy o *'weithio tawel'* yn yr ysgol uwchradd.

Gofynnwyd i swyddogion ALl, staff a disgyblion beth, yn eu barn hwy, oedd y prif heriau oedd yn wynebu disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Cyfeiriodd y tri grŵp o ymatebwyr at y mater o fynd a dod i'r ysgol, yn enwedig pan fyddai disgyblion yn teithio ar fysiau ysgol. Roedd disgyblion yn pryderu y byddent yn colli'r bws ac roedd rhai'n ofni cael eu bwlian ar fysiau.

Soniwyd hefyd am faint yr ysgol uwchradd o'i gymharu â'r ysgol gynradd gan ALlau, staff a disgyblion, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion cynradd bach iawn. Yn wir, roedd *'mynd ar goll'* a *'ffeindio'ch ffordd o gwmpas'* yn cael eu codi'n rheolaidd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 a'r disgyblion Blwyddyn 7 wrth gofio eu dyddiau cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Roedd ofn bwlian hefyd yn ffactor a godwyd gan yr holl ymatebwyr, a dywedodd y cydlynwyr trosglwyddo eu bod yn neilltuo cryn dipyn o amser i leddfu ofnau disgyblion am fwlian ac i esbonio'r drefn y dylai disgyblion ei dilyn pe byddent yn dioddef bwlian.

Soniwyd am setlo i lawr a gwneud ffrindiau newydd gan nifer fawr o staff a disgyblion. Ni ddywedodd yr un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy fod gan yr ysgol uwchradd bolisi o osod dosbarthiadau o ddisgyblion o'r un ysgol gyda'i gilydd ond roedd gan lawer bolisi o sicrhau, lle'r oedd hynny'n bosibl, fod grwpiau o ffrindiau o bob ysgol gynradd oedd yn bwydo yn cael eu rhoi ym mhob dosbarth. Er bod peth pryder ar ran y disgyblion Blwyddyn 6 cyn trosglwyddo, dywedodd disgyblion Blwyddyn 7 eu bod wedi setlo i lawr yn eithaf cyflym.

Dywedodd y tri grŵp o ymatebwyr fod y gwahanol arddulliau dysgu ac addysgu oedd yn cael eu defnyddio mewn ysgolion uwchradd yn aml yn achosi pryder i ddisgyblion. Yn arbennig, roedd yr angen i ffurfio perthynas gydag athrawon newydd a chael eu haddysgu gan wahanol athrawon mewn gwahanol bynciau yn her i lawer o ddisgyblion.

## Canfyddiadau Allweddol

Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredin yn datblygu rhwng athrawon CA2 a CA3, ond roedd yn dal yn cael ei ystyried yn annigonol ar y cyfan

Roedd cyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd a chynllunio pwnc ar y cyd rhwng staff CA2 a CA3 yn effeithiol wrth hybu gwell dealltwriaeth traws-sector. Roedd llawer o'r rhain yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan yr ALlau.

Rodd y cysylltiadau cwricwlaidd traws gyfnod allweddol oedd wedi eu datblygu ar eu cryfaf yn y pynciau craidd.

Ym mhob ysgol uwchradd, roedd y rôl allweddol o ran trosglwyddo wedi'i roi i gydlynydd trosglwyddo, er y gallai'r unigolyn dan sylw fod yn ddirprwy bennaeth, yn Bennaeth Blwyddyn neu'n aelod arall o'r staff.

Ychydig o gysylltiadau ffurfiol oedd wedi eu datblygu rhwng llywodraethwyr ysgolion cynradd ac uwchradd er bod achosion lle'r oedd aelodau unigol yn aelodau o'r ddau gorff. Nid oedd cryfhau cysylltiadau llywodraethwyr yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

Roedd yr holl ysgolion uwchradd yn derbyn canlyniadau profion a thasgau CA2 a data arall ar ddisgyblion gan yr ysgolion cynradd oedd yn eu bwydo. Byddai ffurflenni safonol yn cael eu cynhyrchu weithiau gan yr ysgolion uwchradd i'r diben hwn.

Ar y cyfan, roedd yr wybodaeth oedd yn cael ei throsglwyddo'n annigonol. Roedd rhai ysgolion uwchradd yn defnyddio'r wybodaeth hon fel sail ar gyfer ffurfio grwpiau cofrestru a rhoi disgyblion mewn setiau. Er bod ysgolion cynradd yn teimlo fod eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol nag yn y gorffennol roedd llawer ohonynt yn dal i gredu nad oedd ysgolion uwchradd yn gwneud y mwyaf o botensial y data.

Byddai gwybodaeth sensitif am gefndir disgyblion fel arfer yn cael ei rhoi ar lafar gyda'r athrawon yn pwysleisio'r angen iddi aros yn gyfrinachol ar sail angen i wybod.

Rhan bwysig o rôl y cydlynydd oedd ymweld â disgyblion Blwyddyn 6, a disgyblion Blwyddyn 5 weithiau, darparu gwybodaeth, dod i adnabod staff yr ysgolion cynradd, a threfnu i'r disgyblion ymweld â'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, roedd i ba raddau yr oedd yr ymweliadau hyn yn digwydd yn amrywio'n fawr.

Roedd pob disgybl yn cael cyfleon i ymweld â'r ysgol uwchradd cyn diwedd Blwyddyn 6. Fel arfer, byddai hyn yn digwydd drwy gyfrwng ymweliadau dosbarth yn ystod tymor yr haf ar ôl yr asesiadau CA2 statudol, ond weithiau byddent yn digwydd yn yr hydref blaenorol cyn i ddisgyblion ddewis eu hysgol uwchradd. Byddai'r disgyblion fel arfer yn dilyn amserlen fer o wersi, yn aml mewn pynciau newydd, yn ystod yr ymweliadau.

Roedd nifer o ysgolion wedi cyflwyno prosiectau trosglwyddo ac mewn lleiafrif ohonynt roedd hyn yn cynnwys cael athrawon o'r ysgol uwchradd yn addysgu disgyblion Blwyddyn 6. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau gwaith cyffredin wedi cael eu datblygu yn eang.

Roedd rhai ysgolion yn trefnu digwyddiadau sefydlu arbennig ar gyfer disgyblion newydd Blwyddyn 7. Cyfeiriodd pob un ohonynt at bwysigrwydd darparu cynghori a chefnogaeth fugeiliol barhaus ar gyfer disgyblion.

Roedd polisïau mwy ffurfiol wedi cael eu datblygu ar drosglwyddo disgyblion ag AAA, oedd yn adlewyrchu hanes o gydweithredu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, ac oedd hefyd yn cynnwys yr ALlau. Fel rheol, roedd staff SENCO uwchradd a chynradd yn cyfarfod unwaith y tymor. Mewn rhai ardaloedd roedd angen rhoi sylw i'r trefniadau trosglwyddo disgyblion ag AAA oedd heb ddatganiad.

Wrth addysgu Cymraeg fel Ail Iaith, ychydig o byramidiau oedd wedi datblygu polisïau i sicrhau dilyniant mewn addysgu Cymraeg. Mewn nifer o achosion, dywedwyd fod disgyblion oedd yn astudio Cymraeg fel Mamiaith yn yr ysgol gynradd yn ei astudio fel Ail Iaith yn yr ysgol uwchradd. Roedd pryder y gallai hyn danseilio'r gwaith oedd wedi'i wneud yn yr ysgolion cynradd. Roedd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg benodedig yn cadw cysylltiad agos gyda'r ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig oedd yn ei bwydo ac yn sicrhau cynlluniau gwaith cyffredin ar gyfer dysgu'r iaith yno.

Roedd y prif heriau a ddisgrifiwyd gan staff ALlau, ymarferwyr ysgolion a disgyblion yn ymwneud â materion megis teithio, setlo i lawr mewn amgylchedd newydd, gwneud ffrindiau newydd, arfer gydag ysgol fawr, astudio pynciau newydd a gorfod ymwneud â mwy o athrawon. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 y byddent yn hyderus wrth geisio help a chyngor gan eu hathrawon dosbarth.

# 7. Casgliadau

## 7.1 Ystadegau perfformio

Mae canlyniadau asesiadau statudol CA2 a CA3 yn dangos fod canrannau is o ddisgyblion yn cyflawni'r norm disgwyliedig ar gyfer y cyfnod allweddol yn CA3 nag yn CA2. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn perfformiad yn fwy amlwg ymhlith bechgyn. Roedd barn y rhan fwyaf o'r athrawon yn yr ymchwil yn cadarnhau'r cwymp hwn yn CA3.

## 7.2 Ffactorau sy'n Effeithio ar Berfformiad Is yn CA3

Roedd amrywiaeth o ffactorau'n cyfrannu tuag at y perfformiad is hwn ymhlith disgyblion CA3:

- rhai ffactorau y tu hwnt i reolaeth ysgolion, yn cynnwys dylanwadau cymdeithasol, pwysau cyfoedion a datblygiad corfforol personol yn ystod glasoed
- colli'r berthynas glos rhwng athro a disgybl sy'n bodoli yn CA1 a CA2 pan mae disgyblion yn cael eu haddysgu gan amrywiaeth o athrawon yn yr ysgol uwchradd
- gwahanol arddulliau dysgu ac addysgu yn CA3 lle mae mwy o addysgu dosbarth cyfan yn disgwyl a gofyn am fwy o ddysgu annibynnol
- diffyg ymwybyddiaeth ymysg llawer o athrawon CA3 am arferion dysgu ac addysgu yn CA2, a'r gwrthwyneb, sy'n pwysleisio newydd-deb profiadau disgyblion yn y dosbarth yn CA3
- galwadau rhagor o waith cartref yn CA3
- ailadrodd rhai meysydd gwaith sydd eisoes wedi cael eu dysgu yn ystod CA2 ym Mlynyddoedd 7 ac 8, yn arwain at ddisgyblion yn colli rhywfaint o ddiddordeb
- y cyfnod hir rhwng asesiadau statudol CA2 a chychwyn yn yr ysgol uwchradd, yn cwmpasu awyrgylch mwy hamddenol ar ddiwedd Blwyddyn 6 a gwyliau haf o chwe wythnos.

## 7.3 Cywirdeb Asesiadau CA2 a Chwricwlwm Cenedlaethol

Roedd teimlad ymhlith llawer o athrawon ysgol uwchradd fod y cwymp canfyddedig mewn perfformiad yn CA3 yn cael ei bwysleisio drwy gymharu yn y pynciau craidd yn unig. Gall cyflawniad disgyblion gael ei chwyddo yn ystod awyrgylch dwys Blwyddyn 6 gyda'i bwyslais ar y pynciau craidd a'r ymarfer mewn sefyll profion i baratoi ar gyfer profion a thasgau statudol CA2.

Yn CA3 roedd y pwyslais addysgu'n cael ei daenu ar draws holl amrediad pynciau'r cwricwlwm. Teimlid fod lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhy eang i adlewyrchu cynnydd disgyblion gyda chywirdeb.

## 7.4 Cyfranogiad yr ALl

Roedd maint y gefnogaeth oedd yn cael ei darparu gan ALlau i drefniadau trosglwyddo'n amrywio'n fawr. Amlygodd nifer ohonynt y rôl yr oedd eu hymgynghorwyr wedi'i chwarae wrth gefnogi dyddiau HMS ar y cyd ar drosglwyddo, prosiectau trosglwyddo, cysylltiadau bugeiliol, a safoni trefniadau trosglwyddo. Teimlai ALlau y gallent ddatblygu'r rôl hon ymhellach mewn cydweithrediad gydag ysgolion, er bod lleiafrif o ysgolion yn teimlo y dylid gadael y mater iddynt hwy.

## 7.5 Pwysigrwydd Gweithdrefnau Trosglwyddo

Fodd bynnag, roedd consensws yn yr ysgolion uwchradd yn dweud fod cynnydd disgyblion drwy'r cyfnodau allweddol yn aml yn anwastad ym Mlynyddoedd 7 ac 8 ac y gellid ei wella. Roedd y sectorau cynradd ac uwchradd yn cydnabod fod gan drefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion ran hanfodol i'w chwarae i sicrhau cynnydd disgyblion.

## 7.6 Gwella Trefniadau Trosglwyddo

Ar y cyfan, roedd ysgolion wedi gwneud cryn ymdrechion i wella ac i ddatblygu trefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion ac roedd amrywiaeth eang o fentrau i gefnogi trosglwyddo disgyblion yn cael eu gweithredu. Yn raddol roedd ysgolion uwchradd yn dechrau buddsoddi mwy o amser staff ac adnoddau eraill i drosglwyddo a threfniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd.

## 7.7 Strategaethau ar gyfer Gwella

Nodwyd amrywiaeth o strategaethau llwyddiannus i gefnogi trosglwyddo disgyblion, yn cynnwys:

- pennu rôl cydlynydd trosglwyddo i aelod o staff yn yr ysgol uwchradd
- trosglwyddo data ar berfformiad disgyblion o'r ysgol gynradd i'r uwchradd; mae rhai ALlau wedi nodi pa wybodaeth ddylai gael ei hanfon at ysgolion uwchradd

- darparu gwybodaeth gefndir am ddisgyblion ar lafar i'r ysgol uwchradd lle'r oedd yr wybodaeth yn sensitif
- cyfarfodydd rhwng adrannau pwnc ysgolion uwchradd a staff cynradd â chyfrifoldeb dros y pwnc i ddyfeisio cynlluniau gwaith i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol ysgolion cynradd a dilyniant ar draws y cyfnodau allweddol
- darparu prosbectysau gan ysgolion uwchradd, a gwybodaeth ysgrifenedig arall ar yr ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni
- nosweithiau agored i rieni disgyblion Blwyddyn 6 ymweld â'r ysgol uwchradd a chael gwybodaeth amdanynt
- ymweliadau gan staff ysgolion uwchradd i'w ysgolion cynradd bwydo i gwrdd â disgyblion, i siarad am yr ysgol uwchradd, ac i addysgu gwersi, weithiau mewn pynciau newydd megis ieithoedd modern
- ymweliadau dosbarth gan ddisgyblion Blwyddyn 6 i'w darpar ysgolion uwchradd, yn cynnwys dilyn amserlen gwersi byr a bwyta pryd ysgol
- disgyblion Blwyddyn 7 yn siarad â disgyblion Blwyddyn 6, ar gampws yr ysgol uwchradd neu'r ysgol gynradd, am y trefniadau a'r disgwyliadau fydd yn eu disgwyl yn yr ysgol newydd, sy'n aml yn cario mwy o ddilysrwydd ar gyfer y disgyblion Blwyddyn 6
- gosod disgyblion newydd Blwyddyn 7 gyda'i gilydd mewn grwpiau bach o ffrindiau o fewn y dosbarth, yn seiliedig ar gyfeillgarwch yr ysgol gynradd
- systemau bydi neu fentora ar gyfer disgyblion newydd Blwyddyn 7 oedd yn darparu cefnogaeth un i un gan ddisgybl hŷn
- prosiectau trosglwyddo o waith dosbarth mewn amrywiaeth o bynciau lle byddai disgyblion yn cychwyn ar raglen o waith yn yr ysgol gynradd ac yn ei chwblhau ym Mlwyddyn 7; yn aml yn cael eu dysgu gan athrawon uwchradd yn yr ysgol gynradd.

Roedd peth teimlad, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, fod rhai mentrau trosglwyddo oedd yn cael eu gweithredu gan yr ysgolion uwchradd, megis ymweliadau i ddisgyblion a rhieni, yn rhannol wedi'u symbylu gan y dymuniad i ddenu'r nifer uchaf posibl o ddisgyblion o'r sector cynradd yn ogystal â'r angen i sicrhau dilyniant ym mhrofiad dysgu'r disgyblion.

## 7.8 Trefniadau AAA

Roedd trefniadau i sicrhau dilyniant y ddarpariaeth ar draws y cyfnodau allweddol ar gyfer disgyblion ag AAA ar y cyfan yn effeithiol ac wedi ennill eu plwyf.

## 7.9 Anghenion Bugeiliol ac Addysgol

Ar y cyfan roedd trefniadau i gwrdd ag anghenion bugeiliol disgyblion yn fwy datblygedig a boddhaol na'r rhai i sicrhau dilyniant y profiad addysgol.

## 7.10 Canfyddiadau Disgyblion

Ar y cyfan roedd disgyblion yn fodlon â'r trefniadau oedd yn eu lle i gynorthwyo eu trosglwyddo. Roedd pryderon disgyblion Blwyddyn 6 cyn trosglwyddo'n canoli ar faterion megis:

- teithio
- gorfod gwneud ffrindiau newydd
- mynd ar goll mewn ysgol fawr
- astudio pynciau newydd
- ffurfio perthynas gyda nifer fawr o athrawon
- bwlian.

Dywedodd disgyblion Blwyddyn 7 fod eu pryderon cyn trosglwyddo wedi bod yn ddi-sail gan fwyaf a'u bod wedi setlo i lawr yn yr amgylchedd newydd yn gymharol gyflym.

## 7.11 Cysylltiadau rhwng Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Roedd trefniadau trosglwyddo fel arfer yn fwy effeithiol lle'r oedd cysylltiad cryf rhwng ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Roedd trefniadau a chysylltiadau effeithiol yn anoddach pan fyddai modd i ddisgyblion Blwyddyn 6 fynychu un o blith nifer o ysgolion uwchradd.

## 7.12 Ymwybyddiaeth Athrawon ar Draws Cyfnodau Allweddol

Roedd peth diffyg ymwybyddiaeth yn bodoli ymysg athrawon ynghylch arfer mewn cyfnodau allweddol eraill. Teimlai athrawon cynradd fod eu gwaith yn aml yn cael ei danbrisio gan yr ysgolion uwchradd nad oeddent bob amser yn gwerthfawrogi faint o'r cwricwlwm oedd yn cael ei drafod yn CA2 yn y gwahanol bynciau, nad oedd ganddynt ffydd bob amser yn y dyfarniadau asesu oedd yn cael eu gwneud yn CA2, ac nad oeddent bob amser yn gwneud y defnydd llawn o'r data ar ddisgyblion oedd yn cael ei ddarparu wrth i'r

disgyblion drosglwyddo. Roedd teimlad hefyd mewn ysgolion uwchradd fod athrawon CA2 yn gorbrisio cyflawniad eu disgyblion. Byddai'r ysgolion uwchradd fel arfer yn gweinyddu eu hasesiadau eu hunain i ddisgyblion Blwyddyn 7 yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd yr ysgol oherwydd y gred nad oedd gan asesiadau CA2 y graddau angenrheidiol o wahaniaethu.

## 7.13 Cyfarfodydd HMS a Phwnc ar y Cyd

Fodd bynnag, roedd llawer o ALlau wedi dechrau cynnal sesiynau HMS ar y cyd oedd yn dod ag athrawon cynradd ac uwchradd at ei gilydd, ac roedd hyn yn gwella dealltwriaeth y naill a'r llall o natur addysgu ac asesu yn y ddau gyfnod allweddol. Roedd cryn gonsensws fod dyddiau HMS fel hyn, ynghyd â chyfarfodydd traws gyfnod eraill mewn pynciau penodol, yn gyfrwng gwerthfawr i wella dilyniant profiad dysgu disgyblion, er bod rhai athrawon cynradd yn meddwl fod y sesiynau hyn fel arfer yn cael eu gyrru gan anghenion yr ysgol uwchradd. Roedd ymweliadau athrawon i arsylwi addysgu mewn gwahanol gyfnod allweddol yn llai cyffredin, ond yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd rhyddhau athrawon i arsylwi gwersi ac ar gyfer ymweliadau'n gyffredinol yn haws i'w drefnu mewn ysgolion uwchradd.

## 7.14 Addysgu Cymraeg

Gyda'r Gymraeg, roedd y cysylltiadau ar draws y cyfnodau allweddol yn aml heb eu datblygu ddigon gyda'r ddarpariaeth Ail Iaith, er bod anawsterau staffio'n aml yn faen tramgwydd yma. Roedd dilyniant ieithyddol disgyblion o fewn y sector benodedig Gymraeg wedi'i gynllunio'n dda yn yr unig byramid o'r fath oedd wedi'i gynnwys yn y sampl. Fodd bynnag, y tu allan i'r sector benodedig Gymraeg, roedd rhai ysgolion cynradd oedd yn addysgu Cymraeg fel Mamiaith yn gweld nifer o'u disgyblion yn trosglwyddo i gael eu haddysgu mewn setiau Ail Iaith ar lefel uwchradd ac nid oedd dilyniant ieithyddol priodol ar gyfer y disgyblion hyn yn cael ei sicrhau. Roedd dewis rhieni'n ffactor pwysig yn y sefyllfaoedd hyn.

## 7.15 Anghenion Ymchwil yn y Dyfodol

Cymerodd y prosiect hwn safbwynt eang iawn o'r trosglwyddo o CA2 i CA3. Daeth yr angen am ymchwil bellach i faterion mwy penodol yn amlwg ond nid oedd modd cwrdd â'r angen o fewn cyfyngiadau'r prosiect hwn. Yn neilltuol, mae angen edrych ar faterion megis:

- arfer da wrth sicrhau dilyniant mewn pynciau unigol, yn enwedig yn y pynciau craidd
- sut y mae sgiliau dysgu disgyblion yn cael eu dylanwadu gan drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd a sut y gellir eu cefnogi i fod yn ddarllenwyr effeithiol ac adlewyrchol.

## 7.16 Cynnydd mewn Trefniadau Trosglwyddo

Mae'n ddiddorol cymharu canfyddiadau'r prosiect hwn gydag ymchwil flaenorol gafodd ei wneud gan SCYA ym maes trosglwyddo, yn enwedig gan Schagen a Kerr (1999). Amlygodd yr adroddiad hwnnw faterion oedd yn fater pryder cyffredinol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'r ymchwil hon yn dangos na fu unrhyw newid sylfaenol yn yr athroniaeth na'r agwedd tuag at drosglwyddo, ond bod cynnydd wedi bod yng Nghymru wrth ddatblygu rhai strategaethau ymhellach a lledaenu eu harfer yn ehangach.

Yn neilltuol, roedd mwy o dystiolaeth:

- fod mwy o athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd trefniadau trosglwyddo da, ac nid oedd yn cael ei ystyried yn fater i'r cydlynwyr trosglwyddo a'r penaethiaid yn unig
- fod HMS ar y cyd ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd yn fwy cyffredin, a bod mwy o ALlau yn gweld hyn fel blaenoriaeth ac yn barod i glustnodi adnoddau ar ei gyfer
- o gydnabyddiaeth nad yw gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ynddynt eu hunain yn ddigon i sicrhau dilyniant cwricwlaidd
- fod rhai ALlau yn cefnogi ysgolion i drosglwyddo data'n fwy effeithiol drwy sefydlu meini prawf penodol ynghylch pa wybodaeth ddylai gael ei darparu
- o gyfarfodydd athrawon ar draws cyfnodau allweddol i greu cynlluniau gwaith ac i gymharu arddulliau/dulliau dysgu ac addysgu.

Mewn meysydd eraill roedd y sefyllfa'n dal i fod yn debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd gan Schagen a Kerr. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o orchmynion y cwricwlwm mewn cyfnodau ar wahân i'r rhai yr oeddent yn eu dysgu, defnydd cyfyngedig o ddata cyflawniad cyfnodau allweddol blaenorol wrth gynllunio gwaith gwahaniaethol ar gyfer disgyblion, a'r potensial am broses mwy systematig o adolygu gwaith disgyblion ar draws

cyfnodau allweddol. Gellid datblygu llawer iawn ar rôl ALlau yn cynllunio a chydlynu gwaith o'r fath hefyd.

# Atodiad: Astudiaethau achos ymarfer da

## Astudiaeth achos 1

### Cefndir

Mae'r ysgol gynradd hon, sydd â 238 o ddisgyblion ar y gofrestr, wedi'i lleol yng ngogledd orllewin Cymru mewn ardal lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, er nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf i'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae disgyblion o'r ysgol yn trosglwyddo i ddwy ysgol uwchradd, un ohonynt yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau'n llawer cryfach gyda'r ysgol arall.

### Cysylltiadau uwchradd-cynradd

Roedd yr ysgol yn gweithio'n agosach gydag eraill yn ei phyramid nag yn y gorffennol. Roedd staff yn mynd i gyfarfodydd i drafod maes penodol o'r cwricwlwm bob tymor ac roedd hyfforddiant mewn swydd hefyd yn cael ei gyflwyno i staff fel grŵp pyramid. Roedd hefyd cryn dipyn o gyswllt rhwng y pennaeth a Phennaeth Blwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd, o leiaf bob hanner tymor. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynlluniau gwaith cyffredin wedi cael eu datblygu hyd yn hyn er bod yr ysgol yn ymwybodol fod yr ALl yn awyddus i hyn ddigwydd fel dull o sicrhau ymagwedd safonol mewn ysgolion cynradd. Ar y cyfan, roedd y staff yn teimlo fod y cysylltiadau â'r ysgol uwchradd yn *'ddigonol'* ac yn darparu sylfaen ar gyfer datblygu pellach. Roeddent yn credu eu bod ar y blaen mewn perthynas â hyn o gymharu â phyramidiau eraill o ysgolion.

Un datblygiad oedd cynllunio prosiect pontio mewn gwyddoniaeth y byddai disgyblion yr holl ysgolion cynradd yn ei gychwyn ddiwedd Blwyddyn 6 ac yn ei gwblhau ym Mlwyddyn 7.

Teimlai staff yn yr ysgol fod lefel y ddealltwriaeth rhwng yr athrawon cynradd ac uwchradd yn cynyddu. *'Mae wedi gwella ers i ni gychwyn y prosiect cysylltiadau - rydym wedi mynd drwy wahanol feysydd y cwricwlwm sy'n golygu fod yna fwy o wybodaeth a dealltwriaeth nag mewn blynyddoedd blaenorol'.* Roedd teimlad fod hyn yn bwysig iawn gan fod angen i ysgolion uwchradd wybod yn union beth roedd plant yn ei gyflawni yn yr ysgolion cynradd er mwyn gwneud y gorau o botensial pob disgybl. Roedd teimlad hefyd fod athrawon ysgolion cynradd yn dod yn fwy ymwybodol o beth yr

oedd eu cydweithwyr yn yr ysgol uwchradd yn ei wneud, a bod angen mwy o brofiadau cyffredin i'r holl ddisgyblion sy'n bwydo ysgol uwchradd.

Roedd yr ALl wedi clustnodi £2000 i'r grŵp pyramid ac roedd ei wasanaeth ymgynghorol wedi helpu i ddatblygu'r prosiect pontio gwyddoniaeth. Roedd hefyd yn cynghori'r holl ysgolion uwchradd ar sut i ddefnyddio ac i ddadansoddi'r data oedd yn cael ei ddarparu gan yr ysgolion cynradd.

Er bod y cysylltiadau rhwng llywodraethwyr yr ysgol a llywodraethwyr yr ysgol uwchradd yn denau ar y funud, roedd bwriad y byddai dau lywodraethwr o bob ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd. Serch hynny, nodwyd mai prin oedd cyfranogiad llywodraethwyr yn y trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

### Trefniadau addysgu Cymraeg

Roedd yr ysgol yn addysgu Cymraeg fel Mamiaith i bob disgybl ac yn cyfeirio at y gwaith caled oedd yn cael ei wneud i gefnogi pob disgybl i ddod yn siaradwr rhugl. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r plant wedyn yn astudio Cymraeg fel Ail Iaith yn yr ysgol uwchradd, a'r teimlad oedd bod yr ethos yno'n fwy Seisnig: er enghraifft, ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn yr ysgol uwchradd.

### Trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion ag AAA

Roedd y cydlynydd AAA (SENCO) yn yr ysgol uwchradd yn cael gwahoddiad i ymweld â'r ysgol gynradd cyn y Nadolig bob blwyddyn i drafod plant oedd â datganiadau AAA. Roedd hefyd yn cwrdd ag athrawon i drafod unrhyw drefniadau arbennig fyddai angen eu gwneud ar gyfer y plant. Teimlid fod y system yn gweithio'n dda ar hyn o bryd yn enwedig yn sgil y pwyslais oedd yn cael ei roi gan yr ysgol uwchradd ar ofal bugeiliol i ddisgyblion ag AAA.

### Trosglwyddo data

Roedd y data ar gyrhaeddiad academaidd oedd yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn cynnwys:

- canlyniadau profion CA2
- sgriptiau profion CA2
- llyfryn gan yr ALl

- taflen yn nodi cryfderau a gwendidau'r disgyblion
- sampl o waith Cymraeg a gwyddoniaeth
- copi o'r adroddiad terfynol i rieni.

Roedd yr ysgol yn teimlo fod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r ysgol uwchradd, er nad oeddent yn siŵr pa ddefnydd oedd yn cael ei wneud ohoni. Meddai un athro *'dydyn nhw ddim yn edrych ar hanner yr wybodaeth'.*

Nid oedd yr ysgol yn darparu unrhyw wybodaeth ysgrifenedig am amgylchiadau cefndir disgyblion ond roedd yn rhoi'r wybodaeth honno ar lafar. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion oedd wedi codi mewn perthynas ag amgylchiadau cartref plentyn, grwpiau ffrindiau disgyblion a disgyblion nad oedden nhw'n ffrindiau â hwy. Teimlai'r ysgol fod yr wybodaeth bersonol gefndir oedd yn cael ei rhoi yn ddigonol.

### Cyswllt â'r ysgol uwchradd

Disgrifiodd yr ysgol ei threfniadau trosglwyddo fel rhai *'effeithiol'.* Y prif bwynt cyswllt gyda'r ysgol uwchradd oedd Pennaeth Blwyddyn 7 a'r SENCO yno. Roedd pennaeth yr ysgol uwchradd hefyd yn ymweld â'r disgyblion unwaith cyn iddynt drosglwyddo.

### Trefniadau sefydlu

Yn ystod Blwyddyn 6 byddai'r disgyblion yn ymweld â'r ysgol ddwywaith neu dair ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Byddai disgyblion Blwyddyn 5 yn ymweld â'r ysgol unwaith. Byddai disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld cyn diwedd tymor yr hydref ac ar ddechrau Gorffennaf am un diwrnod sefydlu.

Roedd rhieni'n cael eu gwahodd i'r ysgol uwchradd yn gynnar yn y flwyddyn a gallent hefyd wneud apwyntiad i gael eu tywys o amgylch yr ysgol.

### Canfyddiadau o ostyngiad mewn perfformiad

Teimlai'r staff mai'r prif reswm dros y cwymp mewn perfformiad yn CA3 oedd bod disgyblion yn colli momentwm ar ôl eu llwyddiant ym Mlwyddyn 6. Ar yr un pryd, roeddent yn credu ei bod hi'n anodd i staff mewn ysgol uwchradd fawr ddod i adnabod pob plentyn yn dda ac i wybod am eu sgiliau a'u hanghenion unigol. Roedd hyn yn cael ei gydnabod fel problem fawr oedd yn anodd ei datrys yn gyflym. Teimlai athrawon hefyd fod disgyblion yn mynd drwy newidiadau corfforol ac emosiynol yn ystod CA3 oedd yn effeithio ar eu perfformiad.

# Astudiaeth achos 2

## Cefndir

Mae'r ysgol gynradd hon, sydd â 420 o ddisgyblion ar y gofrestr, wedi'i lleoli mewn ardal drefol yn ne Cymru. Disgrifiwyd y dalgylch fel un *'canol y ffordd'* ac roedd yn cynnwys tai teras preifat yn bennaf.

## Cysylltiadau uwchradd-cynradd

Roedd mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo i un ysgol uwchradd. Fodd bynnag, roedd rhai'n trosglwyddo i ddwy ysgol arall, un ohonynt yn ysgol uwchradd enwadol. Yn y gorffennol roedd hyd at draean o'r disgyblion wedi trosglwyddo i ysgolion uwchradd eraill oedd *'ag enw da iawn yn academaidd'.* Er hynny, roedd llai o dystiolaeth o hyn yn ddiweddar. Roedd nifer o ddisgyblion hefyd yn trosglwyddo i ysgolion eraill am resymau megis rhieni'n symud tŷ.

Roedd penaethiaid yr holl ysgolion yn y pyramid yn cwrdd â'i gilydd, ac roedd hyfforddiant mewn swydd ar y cyd wedi'i gynnal oedd wedi ffocysu ar drosglwyddo ac ar y broses dysgu ac addysgu. Prif ffocws gwaith yr ysgol ei hun gydag ysgolion cynradd eraill, a'r ysgol uwchradd yn y grŵp pyramid, oedd datblygu prosiect mathemateg. Roedd yr athrawon wedi trafod cynlluniau gwaith ac roeddent yn *'symud tuag at'* ymagwedd fwy unffurf fyddai'n defnyddio cryfderau gwahanol ysgolion. Roedd staff o'r ysgol hefyd wedi ymweld â'r ysgol uwchradd i arsylwi gwersi mathemateg. Roedd bwriad i athrawon mathemateg yr ysgol uwchradd ymweld â'r ysgolion cynradd.

Roedd teimlad fod y prosiectau hyn wedi ffurfio cysylltiadau mwy clos rhwng ysgolion nad oedd wedi bod yn gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn parhau ac yn ymestyn y tu hwnt i faes mathemateg ac *'y dylai ddigwydd ym mhob pwnc'.* Fodd bynnag, pwysleisiodd y pennaeth y dylid cyflwyno ymagwedd fwy unffurf mewn modd oedd yn parchu *'unigoliaeth pob ysgol'.*

Ar y cyfan, roedd teimlad fod yr wybodaeth gyffredin oedd yn cael ei rhannu rhwng athrawon gwahanol gyfnodau'n cynyddu ond ei bod yn dal yn gyfyngedig ar hyn o bryd a bod angen meithrin gwell dealltwriaeth.

Roedd yr ALl wedi rhoi cryn gefnogaeth i brosiectau trosglwyddo'r grŵp pyramid drwy ddylunio 'pasport gwyddoniaeth' a 'phasport Cymraeg' yr oedd disgyblion yn eu cychwyn yn yr ysgol gynradd ac yn eu cwblhau ym Mlwyddyn 7. Roedd cynghorydd cyswllt yr ysgol hefyd wedi trafod yr angen i fynd i'r afael â materion oedd yn ymwneud â throsglwyddo gyda staff yn yr ysgol gynradd. Teimlai'r pennaeth y dylai ALlau sicrhau fod ysgolion yn gweithio i fformat cyffredin o ran y modd yr oedd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r ysgolion uwchradd a pha wybodaeth oedd yn cael ei chynnwys. Roedd teimlad hefyd fod gan ALlau rôl allweddol wrth ddatblygu mwy o hyfforddiant mewn swydd ar y cyd ar themâu cytûn i bob ysgol o fewn pyramid o ysgolion.

### Trefniadau addysgu Cymraeg

Roedd yr ysgol yn addysgu Cymraeg fel Ail Iaith, a dyna oedd yn digwydd yn yr ysgol uwchradd hefyd. Gyda chymorth yr ALl, roedd pasport Cymraeg wedi cael ei ddatblygu i gryfhau dilyniant addysgu ar draws cyfnodau allweddol.

### Trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion ag AAA

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Phennaeth Blwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd a gyda'r cydlynydd AAA i drafod disgyblion â datganiadau AAA. Roedd y rhain yn sail i benderfyniadau yn yr ysgol uwchradd parthed y grwpiau dysgu y dylid gosod y disgyblion hynny ynddynt.

### Trosglwyddo data

Dywedodd yr ysgol fod ffeil o dystiolaeth ar bob disgybl wedi'i throsglwyddo i'r ysgol uwchradd yn y gorffennol. Fodd bynnag, roedd wedi cael ei chwynnu gryn dipyn dros y blynyddoedd diweddaraf ac erbyn hyn roedd yn cynnwys tystiolaeth o ysgrifennu, gwaith mathemateg a Chofnod Cyrhaeddiad pob disgybl. Roedd y data oedd yn cael ei drosglwyddo'n cynnwys canlyniadau'r profion CA2, gydag asesiad yr athro. Roedd sgôr y profion darllen safonol hefyd yn cael ei ddarparu.

Byddai'r ysgol yn trafod materion megis pa ddisgyblion na ddylid eu grwpio gyda'i gilydd a pheth gwybodaeth gefndir am bob plentyn, gwybodaeth am faterion iechyd ac, mewn lleiafrif o achosion, cefndir teuluol.

### Cyswllt â'r ysgol uwchradd

Teimlai'r ysgol eu bod wedi trosglwyddo gormod o wybodaeth yn y gorffennol ond eu bod wedi taro ar y cydbwysedd iawn erbyn hyn ar beth oedd ei angen ar yr ysgol uwchradd i wneud penderfyniadau gwybodus heb ei gorlwytho â gwybodaeth nad oedd modd iddi ei phrosesu.

### Trefniadau sefydlu

Byddai Pennaeth Blwyddyn 7 yr ysgol uwchradd yn ymweld â'r ysgol i ddarparu gwybodaeth gefndir. Byddai cyn ddisgyblion yr ysgol fel arfer yn dod gyda'r Pennaeth Blwyddyn. Wedi hynny, byddai'r disgyblion yn ymweld â'r ysgol uwchradd ddwywaith cyn gadael Blwyddyn 6. Ar y dyddiau hynny byddai'r disgyblion yn dilyn model o gwricwlwm, fel arfer gwersi TG, technoleg a gwyddoniaeth.

### Canfyddiadau o ostyngiad mewn perfformiad

Roedd teimlad fod peth 'lefelu' mewn perfformiad yn CA3 gan fod rhai disgyblion gafodd lefel 4 ym Mlwyddyn 6 yn dal i gael lefel 4 ym Mlwyddyn 9. Teimlai'r staff hefyd fod plant yn cymryd amser i addasu i'w hamgylchedd newydd: '*Mae'n rhaid iddyn nhw ddod i arfer â chymaint o bethau, mae eu dysgu'n rhwym o ddioddef.'* Roedd teimlad mai'r agwedd bwysicaf oedd colli'r cysylltiad ag un athro unigol: awgrymodd un athro bod angen mynd i'r afael â hyn drwy drefnu'r addysgu ym Mlwyddyn 7 mewn modd oedd yn lleihau nifer yr athrawon oedd yn addysgu'r plant a lleihau'r nifer o ystafelloedd lle'r oeddent yn cael eu haddysgu.

## Astudiaeth achos 3

### Cefndir

Ysgol cyfrwng Cymraeg yn Ne Cymru yw hon. Mae'n ysgol 11-18 gyda rhyw 1,200 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae'n derbyn disgyblion o saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

### Cysylltiadau uwchradd-cynradd

Byddai penaethiaid pob ysgol yn y dalgylch yn cyfarfod bob tymor. Roedd cyfarfodydd pwnc ardal hefyd yn cael eu cynnal er bod eu mynychder yn amrywio, gyda llawer mwy o gyswllt ymhlith y pynciau craidd. Roedd Pennaeth Blwyddyn 7 yn ymweld â phob ysgol fwydo bob blwyddyn i drafod y trefniadau trosglwyddo.

Er enghraifft, byddai aelodau adran Saesneg yr ysgol yn cyfarfod eu cydweithwyr yn yr ysgolion cynradd yn ystod tymor yr haf ac yn cyfarfod pob athro Blwyddyn 6 i drafod prosiect pontio. Roedd disgyblion yn cychwyn astudio darn o farddoniaeth Saesneg ym Mlwyddyn 6 ac yn gorffen y gwaith ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, nid oedd yr ysgol wedi gweithio gyda'r ysgolion cynradd eto i ddatblygu cynlluniau gwaith cyffredin er ei bod wedi ceisio sicrhau cytundeb ynghylch pa ddeunydd darllen y byddai plant wedi'i ddefnyddio cyn iddynt drosglwyddo.

Roedd athrawon o'r ysgol gynradd wedi arsylwi gwersi yn y pynciau craidd ac roedd rhai cydlynwyr pwnc hefyd wedi bod i'r ysgol. Credai uwch aelod o staff bod angen cryfhau'r cysylltiadau hyn a bod angen gwaith pellach i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o gynlluniau gwaith mewn gwahanol ysgolion. Yn enwedig roedd teimlad fod gan ysgolion uwchradd lawer i'w ddysgu gan gydweithwyr cynradd: *'Mae cymaint o waith da'n cael ei wneud yn yr ysgolion cynradd – mae gennym ni lawer i'w ddysgu'*.

Dywedodd nifer o'r staff addysgu nad oeddent yn ymwybodol o sut yr oedd eu pynciau'n cael eu haddysgu yn CA2 ond credent y byddai'n fuddiol pe byddai ganddynt fwy o gyfleoedd i ddysgu. Er enghraifft, un mater yr oedd yr athrawon Saesneg am wybod mwy amdano oedd y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau addysgu ar gyfer y pwnc mewn ysgolion cynradd. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai mwy o ddeialog yn hybu gwell dealltwriaeth o'r defnydd o wahanol ddulliau addysgu.

Roedd llawer o athrawon yn gweld bod angen am fwy o unffurfiaeth yn y profiadau dysgu yr oedd disgyblion yn eu cael cyn dod i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, roedd aelod o Adran Gymraeg yr ysgol yn teimlo y byddai'n anodd safoni'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan ysgolion cynradd ac uwchradd oherwydd bod y ffordd yr oeddent yn gweithio'n wahanol. Ar ben hynny, roedd teimlad ei bod yn fwy buddiol i gael cytundeb ar egwyddorion cyffredinol a chaniatáu i bob ysgol weithio ar y manylion drostynt eu hunain. Roedd teimlad y gallai datblygu system o gyfnewid athrawon olygu fod mwy o athrawon yn cael eu cymryd allan o'r dosbarth ar adeg pan oedd amser cyswllt gyda disgyblion eisoes yn cael ei leihau gan alwadau eraill.

### Trefniadau addysgu Cymraeg

Roedd llawer iawn o waith yn cael ei wneud i ganfod sut yr oedd disgyblion wedi datblygu eu sgiliau yn Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Er enghraifft, roedd aelod o'r Adran Gymraeg wedi ymweld â phob ysgol gynradd er mwyn gweld sut yr oedd disgyblion yn gallu defnyddio'r treigliadau, amser gorffennol y ferf, sut roeddent wedi datblygu arddull ysgrifennu a pha enghreifftiau o Gymraeg ysgrifenedig yr oeddent wedi eu darllen. Anfonwyd tapiau sain at ysgolion cynradd hefyd i ddisgyblion gael dealltwriaeth o'r disgwyliadau fyddai'n eu hwynebu yn yr ysgol uwchradd. Roedd angen i ddisgyblion hefyd gyfansoddi darn o waith yn disgrifio eu profiadau yn yr ysgol newydd yn ystod Blwyddyn 6. Byddai athrawon yr ysgolion cynradd yn marcio'r gwaith ac yn ei basio ymlaen i'r ysgol uwchradd.

### Trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion ag AAA

Byddai aelod o adran AAA yr ysgol yn mynd gyda'r Pennaeth Blwyddyn ar ymweliadau i'r ysgolion cynradd gan gasglu gwybodaeth am y disgyblion oedd ag AAA. Roedd y gefnogaeth oedd yn cael ei rhoi yn yr ysgol yn seiliedig ar yr wybodaeth hon. Er enghraifft, mewn rhai pynciau roedd disgyblion ag AAA yn cael eu casglu i weithio mewn grwpiau bach neu'n cael cefnogaeth i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

### Trosglwyddo data

Roedd yr wybodaeth yr oedd yr ysgol yn ei derbyn gan ysgolion cynradd yn cynnwys:

- canlyniadau profion CA2 gyda marciau
- sgoriau unrhyw brofion darllen
- enghreifftiau o waith disgyblion

Roedd yr ysgol yn bwriadu cychwyn defnyddio prawf darllen safonol fyddai'n cael ei weinyddu i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7 i ganfod cyrhaeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i hysbysu penderfyniadau am wahaniaethiad o fewn yr ysgol. Yn ddiweddar roedd yr ysgol wedi penderfynu peidio â setio disgyblion mewn mathemateg ym Mlwyddyn 7 gan ei bod yn teimlo fod hyn wedi digalonni rhai plant. Yn yr un modd, nid oedd adran Saesneg yr ysgol yn setio plant ym Mlwyddyn 7, ond roedd yn gwneud hynny ym Mlwyddyn 8. Dywedodd nifer o staff gafodd gyfweliad bod y profion CA2 yn rhoi arwydd o allu'r disgyblion ond nad oedd

yn ddangosydd cwbl ddibynadwy *'oherwydd y gwahaniaeth eang yn safon y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu gan ddisgyblion sydd wedi cael lefel 4'*. Roeddent yn credu fod yr asesiad athro'n fwy gwerthfawr mewn perthynas â hyn. Roedd y sylw hwn yn cael ei adleisio gan aelodau Adran Gymraeg yr ysgol oedd yn haeru fod lefelau profion CA2 yn rhy eang.

Credai'r ysgol fod yr wybodaeth yr oedd yn ei derbyn gan yr ysgolion cynradd oedd yn ei bwydo'n ddigonol ar hyn o bryd ac roedd yn falch ei bod wedi penderfynu lleihau'r wybodaeth yr oedd yn ei chasglu cyn hynny, oedd wedi mynd yn feichus ac yn amhosibl ei defnyddio.

### Cyswllt â'r ysgolion cynradd

Credai'r staff fod y cyswllt yn dda ar y cyfan a bod perthynas broffesiynol iawn rhyngddynt hwy a'u cydweithwyr cynradd. Fodd bynnag, cydnabuwyd yr angen am sensitifrwydd yn y berthynas gyda chydweithwyr cynradd er mwyn osgoi rhoi'r argraff fod yr ysgol uwchradd yn ceisio gorfodi agenda.

### Trefniadau sefydlu

Roedd gan Bennaeth Blwyddyn 7 rôl allweddol mewn perthynas â throsglwyddo. Byddai'n cwrdd â disgyblion Blwyddyn 6 ddwywaith. Roedd y math o wybodaeth oedd yn cael ei rhoi i'r disgyblion hyn yn cynnwys cefndir cyffredinol am yr ysgol, materion yn ymwneud â'r dillad ysgol a threfniadau cadw trefn, a byddai hi hefyd yn gwahodd cwestiynau gan y disgyblion. Nid oedd yr ysgol yn cyfweld disgyblion yn unigol. Roedd un diwrnod sefydlu'n cael ei drefnu yn yr ysgol uwchradd lle'r oedd amserlen amrywiol yn cael ei darparu, yn cael ei bennu'n bennaf gan y dewis o athrawon Blwyddyn 11 oedd ar gael ar y pryd. Roedd disgyblion a rhieni hefyd yn cael gwahoddiad i noson agored. Nid oedd disgyblion hŷn yn siarad â phlant Blwyddyn 6 cyn iddynt drosglwyddo.

Byddai'r ysgol yn gofyn i'w disgyblion Chweched Dosbarth helpu disgyblion Blwyddyn 7 setlo i lawr yn eu hamgylchedd newydd. Roedd y trefniadau'n cynnwys diwrnod pan mai dim ond disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 12 oedd yn bresennol, oedd yn caniatáu i'r disgyblion newydd ddod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd newydd.

### Canfyddiadau o ostyngiad mewn perfformiad

Teimlai'r staff fod hon yn ffenomen oedd yn ei hamlygu ei hun mwy ym Mlwyddyn 8 nag ym Mlwyddyn 7. Roedd teimlad fod y disgyblion oedd yn dod i mewn i'r ysgol yn frwdfrydig am eu hamgylchoedd newydd ond eu bod yn tueddu i syrthio'n ôl y flwyddyn wedyn, yn enwedig y bechgyn. Roedd peth tystiolaeth eu bod yn colli diddordeb llwyr mewn rhai pynciau.

## Astudiaeth achos 4

### Cefndir

Ysgol 11-18 yng nghymoedd De Cymru yw'r ysgol uwchradd hon. Mae'n tynnu disgyblion o gymunedau sydd wedi cael eu nodi ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae natur heriol y gwaith sy'n wynebu'r ysgol wedi arwain ati'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fentrau i gyfoethogi profiadau addysgol a chymdeithasol ei disgyblion ac i ymgysylltu â mentrau adfywio cymunedol.

### Cysylltiadau uwchradd-cynradd

Roedd rheolwr trosglwyddo'r ysgol yn chwarae rôl allweddol. Roedd gan ddeilydd y swydd gyfrifoldeb cyffredinol dros drosglwyddo a hi oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol. Byddai cynrychiolwyr pob ysgol yn y pyramid yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor a byddai'r rheolwr trosglwyddo'n cyfarfod pennaeth pob ysgol gynradd unwaith bob pythefnos. Yn ôl y deilydd swydd, roedd hi'n bwysig bod yr ysgol uwchradd yn ysgwyddo cymaint o'r baich gwaith â phosibl gan fod yr ysgolion cynradd yn wynebu llwyth gwaith trwm. Pwysleisiodd yr angen i ddatblygu cydberthynas â staff yr ysgol gynradd yn seiliedig ar ddeialog barhaus.

Roedd teimlad fod ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn yr oedd athrawon yn ei wneud mewn gwahanol gyfnodau allweddol. Roedd yr ysgol yn teimlo fod hyn wedi cynyddu'n sylweddol ers iddi gyflwyno'i mentrau (gweler isod) i wella'r cydlynu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Y gobaith oedd y byddai'r prosiect hwn yn cynyddu'r cydweithio oedd yn digwydd ac y byddai athrawon yn arsylwi ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Er bod y staff yn awyddus i gydweithredu, dywedwyd mai'r prif rwystr oedd anhawster ymarferol trefnu cyflenwi ac amser allan o'r dosbarth.

### Trefniadau addysgu Cymraeg

Roedd Pennaeth yr Adran Gymraeg yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth ymgynghorol yr ALl i ddarparu continwwm o addysgu Cymraeg fel ail iaith. Dywedwyd fod hon yn agwedd o waith yr ysgol allai gael ei datblygu ymhellach er bod angen bod yn ofalus ynghylch beth oedd yn bosibl i'w gyflawni mewn cyfnod byr.

### Trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion ag AAA

Roedd cydlynydd AAA yr ysgol yn ymweld â phob ysgol gynradd yng nghwmni'r aelod staff oedd â chyfrifoldeb dros Blant sy'n Derbyn Gofal. Gallai rhieni wneud trefniadau i gwrdd â'r cydlynydd AAA yn yr ysgol gynradd. Roedd gwybodaeth am anghenion pob plentyn yn cael ei lledaenu i bob cyfadran.

### Trosglwyddo data

Roedd pro fforma wedi cael ei ddatblygu oedd yn cynnwys:

- canlyniadau profion CA2, yn cynnwys y lefel, y sgôr ac asesiad yr athro
- canlyniadau profion darllen safonol
- adran ar gryfderau a gwendidau disgyblion
- adran ar iechyd
- sylwadau am ymddygiad/ agwedd
- cyfeiriad at Anghenion Arbennig
- y gallu i nofio
- cofnod presenoldeb.

Roedd pob pennaeth cyfadran yn derbyn y canlyniadau profion CA2, gyda rhai adrannau'n defnyddio'r rhain i setio plant ym Mlwyddyn 7. Roedd y rhain hefyd yn cael eu defnyddio i osod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Teimlai'r rheolwr trosglwyddo fod digon o wybodaeth yn cael ei derbyn er y byddai'n ddymunol cael mwy o enghreifftiau o waith y disgyblion eu hunain yn Saesneg a mathemateg er mwyn safoni gwaith disgyblion. Roedd gwybodaeth gefndir bersonol yn cael ei rhoi i'r Pennaeth Blwyddyn ac i'r athrawon dosbarth ar sail angen i wybod, oedd yn pwysleisio'r angen i beth gwybodaeth aros yn gyfrinachol.

### Trefniadau sefydlu

Roedd y rheolwr trosglwyddo'n ymweld â phob ysgol gynradd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan ddweud wrth ddisgyblion am y math o gyfleusterau oedd ar gael yn yr ysgol uwchradd, megis cyfleusterau chwaraeon a'r cyfleoedd allgyrsiol oedd yn cael eu darparu yno.

Roedd yr ysgol yn gweithredu system llysgenhadon lle byddai cyn ddisgyblion pob ysgol gynradd yn ymweld ac yn siarad â disgyblion Blwyddyn 6 am fywyd yn yr ysgol uwchradd, sut yr oedd problemau'n cael eu datrys a'r cyfleoedd oedd ar gael.

Ar ben hyn, roedd nifer o brosiectau penodol wedi cael eu datblygu oedd wedi'u dylunio i hwyluso trosglwyddo o CA2 i CA3. Roedd y prosiectau'n cynnwys menter e-ddysgu, cwrs gwyddoniaeth a chynhyrchu cylchgrawn rhyngweithiol dan arweiniad disgyblion.

Roedd prosiect e-ddysgu oedd yn cynnwys pob dosbarth Blwyddyn 6 yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol a gliniaduron i gynnal prosiect ar wahanol agweddau o'r cwricwlwm. Er enghraifft, yn 2002-03 cafodd prosiectau eu cynnal yn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, daearyddiaeth, Cymraeg a chelf.

Roedd prosiect gwyddoniaeth wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad ag ysgolion cynradd oedd am wneud defnydd o'r cyfleusterau dysgu ac addysgu arbenigol yn yr ysgol uwchradd. Amcanion y prosiect oedd:

- *bod disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael eu cyflwyno i wyddoniaeth ymarferol mewn labordy er mwyn sefydlu arfer da mewn dysgu ac addysgu gwyddoniaeth*
- *helpu gyda'r broses o drosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *codi lefelau mewn TASau gwyddoniaeth yng Nghyfnodau Allweddol 2/3.*

Roedd grŵp Blwyddyn 6 pob ysgol gynradd yn ymweld â'r ysgol uwchradd bum gwaith y flwyddyn lle'r byddent yn dilyn rhaglen ddysgu wedi'i datblygu gyda'u hysgol eu hunain. Roedd y math o waith oedd yn cael ei wneud yn cynnwys gwers ar ddiogelwch a gwersi ar bynciau megis trin defnyddiau, hydoddedd, hidlo, anweddiad a defnyddio llosgyddion Bunsen. Roedd disgyblion Blwyddyn 5 hefyd yn cael gwers wyddoniaeth yn yr ysgol uwchradd. Dywedodd Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth fod gwelliant amlwg

wedi bod yn sgiliau ymarferol y disgyblion a'u bod yn gwybod bellach beth oedd yn ddisgwyliedig wrth fynd i mewn i labordy.

Roedd cylchgrawn rhyngweithiol â dau rifyn y flwyddyn yn cael ei ddylunio a'i gynhyrchu gan ddisgyblion. Roedd yn cynnwys cyfraniadau gan ddisgyblion CA2 a CA3 ac roedd yn adlewyrchu diddordebau a phryderon y disgyblion eu hunain.

Roedd noson agored hefyd yn cael ei chynnal ar gyfer darpar ddisgyblion a'u rhieni lle byddent yn cael eu cyflwyno i'r cwricwlwm ac i'r mathau o weithgareddau y byddent yn eu gwneud. Roedd y disgyblion yn cael eu cyflwyno i Bennaeth Blwyddyn 7. Roedd yr ysgol hefyd yn gweithredu system bydi ar gyfer disgyblion newydd ac yn darparu hyfforddiant i'r rhai oedd yn cyflawni'r rôl honno.

Roedd disgyblion Blwyddyn 7 hefyd yn cael mynd ar ymweliadau preswyl yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol uwchradd.

### Canfyddiadau o ostyngiad mewn perfformiad

Teimlai cynrychiolwyr yn yr ysgol y gellid tadogi rhai o'r anawsterau yr oedd disgyblion yn eu profi yn CA3 i ddatblygiadau corfforol yr oedran hwnnw, ac i bwysau cymdeithasol a theuluol eraill ar lawer o ddisgyblion, oedd yn milwriaethu yn erbyn dysgu. Roedd teimlad bod hybu uchelgais yn gyfraniad pwysig y gallai'r ysgol ei wneud.

# Cyfeiriadau

ACCAC (2004). *Bridging the Gap: Developing and using bridging units to support effective transition from Key Stage 2 to Key Stage 3.* Caerdydd: ACCAC.

DEMETRIOU, H., GOALEN, P. a RUDDUCK, J. (2000). 'Academic performance, transfer, transition and friendship: listening to the student voice' (Special Issue: School Transitions and Transfers), *International Journal of Educational Research*, 33, 4, 425-41.

DODDINGTON, C., FLUTTER, J. a RUDDUCK, J. (1999). 'Exploring and explaining 'dips' in motivation and performance in primary and secondary schooling', *Research in Education*, **61**, 29-38.

ESTYN (2004a). *Symud Ymlaen ... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.* Caerdydd: Estyn.
http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Moving_On_Effective_Transition_prim.pdf

ESTYN (2004b). *Argymhellion ar weithredu'r ddarpariaeth bontio yn Neddf Addysg 2002.* Caerdydd: Estyn.
http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Remit05.pdf

ESTYN (2004c). *Symud Ymlaen ... Gwella Dysgu: Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.* Caerdydd: Estyn.
http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_MovingOn_ImprovingLearning.pdf

GALTON, M., MORRISON, I. a PELL, T. (2000). 'Transfer and transition in English schools: reviewing the evidence' (Special Edition: School Transitions and Transfers), *International Journal of Educational Research*, **33**, 4, 341-363.

MANN, P. (1997). *LEA Strategies for Effective Transition from CA2 to CA3* (EMIE Snapshot). Slough: NFER, EMIE.

SCHAGEN, S. a KERR, D. (1999). *Bridging the Gap? The National Curriculum and Progression from Primary to Secondary School.* Slough: NFER.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005). *Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
http://www.dysgu.cymru.gov.uk/pdfs/primary-to-secondary-school-w.pdf